**Rhif: WG52826**

Llywodraeth Cymru

# Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Adolygiad o Ddyletswydd Awdurdodau Lleol i gynnal Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant

Chwefror 2026

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd / This document is also available in English
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol XXX

## Trosolwg

O dan Reoliadau Deddf Gofal Plant 2006 (Asesiadau Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2016, mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol asesu'r galw am ofal plant a'i argaeledd bob pum mlynedd drwy'r Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant (ADGP) a gwmpesir o dan adran 26 o Ddeddf Gofal Plant 2006.

Nododd yr ymgynghoriad hwn gynnig ar gyfer datblygu ADGPau yng Nghymru yn y dyfodol a gofynnodd am farn am sut y gellir gwella proses a chynnwys yr ADGP a'i wneud yn addas at y diben er mwyn diwallu anghenion pob rhanddeiliad.

## Y Camau y Mae Angen eu Cymryd

Er gwybodaeth yn unig y mae'r ddogfen hon.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, Braille neu mewn ieithoedd eraill.

## Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:

Is-adran y Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: blynyddoeddcynnar@llyw.cymru

## Copïau ychwanegol

Cyhoeddir y crynodeb hwn o'r ymatebion a chopïau o'r holl ddogfennaeth ymgynghori ar ffurf electronig yn unig ac maent ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru: Adolygiad o Ddyletswydd Awdurdodau Lleol i gynnal Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant (ADGP) | LLYW.CYMRU

**Cynnwys**

1. Cyflwyniad ........ 4
2. Trosolwg o'r Ymatebion ........ 4
3. Crynodeb o'r Ymatebion i Gwestiynau Penodol yr Ymgynghoriad a oedd wedi'u Hanelu'n Bennaf at Ymarferwyr a Llunwyr Polisïau ........ 6
4. Crynodeb o'r Ymatebion i'r Cwestiynau wedi'u Hanelu at Rieni/Gofalwyr ........ 45
5. Crynodeb o'r Ymatebion wedi'u Hanelu'n Bennaf at Ddarparwyr Gofal Plant ... 52
6. Ymateb Llywodraeth Cymru ........ 56

## 1. Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r ymatebion a gafwyd gan Lywodraeth Cymru mewn ymateb i'r Ddogfen Ymgynghori o'r enw ‘Adolygiad o Ddyletswydd Awdurdodau Lleol i gynnal Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant’.

Nododd yr ymgynghoriad gynigion ar gyfer datblygu ADGPau yng Nghymru yn y dyfodol a gofynnodd am farn am sut y gellid gwella proses a chynnwys yr ADGPau a'u gwneud yn fwy addas at y diben er mwyn diwallu anghenion pob rhanddeiliad. Cynigiodd yr ymgynghoriad newidiadau a fyddai naill ai'n cael eu cynnwys o fewn Rheoliadau neu o fewn Canllawiau Statudol.

Cynhaliwyd ymgynghoriad llawn 12 wythnos o hyd rhwng 25 Gorffennaf 2025 a 17 Hydref 2025. Roedd y ddogfen ymgynghori yn cynnwys tair set o gwestiynau, wedi'u hanelu at gasglu barn cynulleidfaoedd penodol, sy'n cynnwys:

A) Ymatebion wedi'u hanelu at Ymarferwyr a Llunwyr Polisïau yn bennaf (rhanddeiliaid yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol sydd naill ai'n ymwneud â chynnal yr ADGPau neu y mae eu maes polisi yn rhyngweithio â nhw e.e. trafnidiaeth, iechyd, addysg, gwasanaethau cymdeithasol, y gymuned a'r economi).

B) Ymatebion gan Rieni/Gofalwyr (darpar rieni/gofalwyr a rhai presennol).

C) Ymatebion gan Ddarparwyr Gofal Plant (darpar ddarparwyr a rhai presennol)

## 2. Trosolwg o'r Ymatebion

Cafwyd cyfanswm o 61 o ymatebion gan sefydliadau ac unigolion, a gofynnodd 23 o'r ymatebwyr hynny am gael aros yn ddienw. Roedd yr ymatebion fel a ganlyn:

| Ymateb | Canran | Nifer |
|---|---|---|
| Ffurflen ymateb wedi'i hanelu'n bennaf at Ymarferwyr a Llunwyr Polisïau [1] | 57.38% | 35 |
| Ffurflen Ymateb ar gyfer Rhieni / Gofalwyr (darpar rieni/gofalwyr a rhai presennol) | 37.70% | 23 |

[1] rhanddeiliaid yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol sydd naill ai'n ymwneud â chynnal yr ADGPau neu y mae eu maes polisi yn rhyngweithio â nhw e.e. trafnidiaeth, iechyd, addysg, gwasanaethau cymdeithasol, y gymuned a'r economi

| | | |
|---|---|---|
| Ffurflen ymateb ar gyfer Darparwyr Gofal Plant (darpar ddarparwyr a rhai presennol) | 4.92% | 3 |

Roedd nifer yr ymatebwyr yn ôl math fel a ganlyn:

| Ymatebwyr | Canran | Nifer |
|---|---|---|
| Awdurdod Lleol | 31% | 19 |
| Darparwyr Gofal Plant | 2% | 1 |
| Sefydliadau eraill (rhanddeiliaid yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol gan gynnwys elusennau, grwpiau eirioli, cymdeithasau proffesiynol, cyrff rheoleiddio, sydd naill ai'n ymwneud â chynnal yr ADGPau neu y mae eu maes polisi yn rhyngweithio â nhw) | 25% | 15 |
| Heb nodi | 43% | 26 |

Ni wnaeth pob ymatebydd ateb pob cwestiwn ac ni wnaeth y rheini a atebodd drwy nodi ateb cadarnhaol neu negyddol neu 'ddim yn berthnasol' bob amser wneud sylwadau. Yn ogystal, nid atebodd rhai ymatebwyr drwy nodi ateb cadarnhaol neu negyddol neu 'ddim yn berthnasol' ond gwnaethant sylwadau. Felly mae'r canrannau yn y naratif sy'n disgrifio'r sylwadau yn seiliedig ar gyfanswm nifer y sylwadau a ddaeth i law, yn hytrach na chyfanswm nifer yr ymatebion a ddaeth i law.

Nod yr ymgynghoriad oedd:

- Sicrhau bod ADGPau yn addas at y diben ar gyfer y dyfodol.
- Sicrhau bod cwblhau'r asesiad yn rhoi cyn lleied o faich â phosibl ar Awdurdodau Lleol.
- Cysoni ac integreiddio'n well â phrosesau cynllunio ac asesu allweddol eraill ar lefel leol a chenedlaethol.
- Sicrhau bod gwybodaeth ar gael ynglŷn â digonolrwydd gofal plant gan gynnwys y materion, yr heriau a'r rhwystrau, er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu polisïau a rhaglenni cenedlaethol a darparu darlun o'r ddarpariaeth ar lefel Cymru gyfan.
- Sicrhau y darperir gwybodaeth berthnasol ac amserol i helpu Awdurdodau Lleol i gynllunio ar gyfer digonolrwydd gofal plant er mwyn llywio strategaethau a pholisïau lleol, gan gynnwys y rhai a gaiff eu darparu gan bartneriaid a sefydliadau rhanddeiliaid.
- Sicrhau bod rhieni, gofalwyr, darparwyr gofal plant, cyflogwyr, plant a phobl ifanc yn cael sicrwydd, cyn belled ag y bo modd, fod gofal plant digonol ar gael yn eu hardaloedd.

## 3. Crynodeb o'r Ymatebion i Gwestiynau Penodol yr Ymgynghoriad a oedd wedi'u Hanelu'n Bennaf at Ymarferwyr a Llunwyr Polisïau

Roedd y rhan fwyaf o'r cwestiynau yn gofyn am ymateb cadarnhaol neu negyddol neu 'Ddim yn berthnasol', ynghyd ag unrhyw sylwadau ategol. Ni wnaeth pob ymatebydd ateb pob cwestiwn ac ni wnaeth y rheini a atebodd drwy nodi ateb cadarnhaol neu negyddol neu 'ddim yn berthnasol' bob amser wneud sylwadau. Yn ogystal, nid atebodd rhai ymatebwyr drwy nodi ateb cadarnhaol neu negyddol neu 'ddim yn berthnasol' ond gwnaethant sylwadau. Ceir crynodeb isod o'r ymatebion a gafwyd i'r cwestiynau a gyflwynwyd yn yr ymgynghoriad a'r canfyddiadau allweddol o'r sylwadau.

**Cwestiwn 1: A fydd y newidiadau arfaethedig i'r Rheoliadau yn helpu i leihau'r baich ac yn darparu gwybodaeth ystyrlon ac amserol er mwyn galluogi Awdurdodau Lleol i asesu a rheoli digonolrwydd y ddarpariaeth gofal plant yn eu hardal?**

Cafwyd cyfanswm o 35 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, fel a ganlyn:

| Ateb | Canran | Nifer |
|---|---|---|
| Byddant | 51% | 18 |
| Na fyddant | 34% | 12 |
| Ddim yn berthnasol | 9% | 3 |
| Dim ond sylwadau a ddarparwyd | 6% | 2 |

Allan o gyfanswm o 35 o ymatebion, cyflwynodd 34 o ymatebwyr sylwadau mewn perthynas â'r cwestiwn hwn. Rhoddodd yr ymatebwyr amrywiaeth eang o adborth manwl, gan gynnig sylwadau gwerthfawr pa bynnag ateb a roddwyd i'r cwestiwn. Dangosodd eu sylwadau sut y gallai'r cynigion helpu i leihau'r baich a chyfrannu at broses fwy ystyrlon a chadarn, gan hefyd nodi pryderon ac awgrymu meysydd y byddai'n werth eu hystyried ymhellach.

Ceir crynodeb o rai o'r canfyddiadau allweddol gan y rheini a gyflwynodd sylwadau isod:

- Roedd ymatebwyr yn croesawu'r diweddariadau a'r ychwanegiadau i broses yr ADGP, gan nodi y byddai mwy o hyblygrwydd yn galluogi Awdurdodau

Lleol i ymdrin ag anghenion a demograffeg lleol yn well. Roedd consensws y byddai'n fuddiol symleiddio'r gofynion adrodd a rhoi diffiniadau cliriach, ond codwyd pryderon y byddai'r broses o goladu a dadansoddi data ar swm mawr o wybodaeth ysgrifenedig y byddai ei hangen o hyd yn parhau i fod yn feichus (41% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (14)).

- Ar y cyfan, roedd ymatebwyr yn croesawu'r cynigion gan nodi eu bod yn fwy ystyrlon a hyblyg, ond roedd ymatebwyr yn ansicr o hyd a fyddai'r cynigion hyn yn lleihau llwyth gwaith a baich gweinyddol Awdurdodau Lleol. Cafwyd ceisiadau i gynnwys templedi cymesur yn y Canllawiau Statudol er mwyn gwella cysondeb ac osgoi llwyth gwaith diangen. (32% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (11)).
- Nododd ymatebwyr y byddai unrhyw ostyngiad yn y baich yn dibynnu ar wella'r trefniadau ar gyfer rhannu data a'u prosesu mewn modd canolog ac roeddent yn awyddus i Lywodraeth Cymru roi setiau data wedi'u glanhau a'u dadansoddi i Awdurdodau Lleol. (32% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (11)).
- Roedd ymatebwyr o'r farn bod ehangu'r gofynion ymgynghori i gynnwys mwy o grwpiau (fel sefydliadau'r trydydd sector, teuluoedd â phlant anabl, grwpiau lleiafrifol, a Byrddau Iechyd Lleol) yn annog cynwysoldeb (12% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (4)). Fodd bynnag, roedd 24% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (8) o'r farn y gallai ychwanegu mwy o faich gweinyddol.

Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr a gyflwynodd sylwadau yn gadarn o blaid y cynigion gan gynnig adborth adeiladol a fydd yn werthfawr wrth geisio rhoi'r Rheoliadau diwygiedig ar waith yn effeithiol.

**Cwestiwn 2: A ydych yn cytuno â'r cynnig i gynnal cylch o bum mlynedd ar gyfer yr ADGP, gyda chynlluniau gweithredu ac adroddiadau cynnydd blynyddol?**

Cafwyd cyfanswm o 33 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, ac atebodd yr ymatebwyr fel a ganlyn:

| Ateb | Canran | Nifer |
|---|---|---|
| Ydw | 76% | 25 |
| Nac ydw | 21% | 7 |
| Ddim yn berthnasol | 3% | 1 |

Cyflwynodd pob un o'r 33 o ymatebwyr sylwadau mewn perthynas â'r cwestiwn hwn.

Mynegodd y mwyafrif o'r ymatebwyr (76%) gefnogaeth gref o blaid cadw cylch o bum mlynedd ar gyfer yr ADGP. Ceir crynodeb o rai o'r canfyddiadau allweddol gan y rheini a gyflwynodd sylwadau isod:

- Roedd llawer o'r ymatebwyr o'r farn bod cylch statudol o bum mlynedd ar gyfer yr ADGP yn rhoi digon o amser i ymgymryd â gwaith cynllunio hirdymor, ei fod yn gyson â strategaethau lleol a chenedlaethol eraill, a'i fod yn lleihau'r baich gweinyddol ar Awdurdodau Lleol (67% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (22)).
- Roedd rhai ymatebwyr o'r farn bod cynlluniau gweithredu ac adroddiadau cynnydd blynyddol yn hanfodol er mwyn sicrhau bod gwybodaeth yn gyfredol, monitro cynnydd, a gallu ymateb mewn modd amserol i anghenion neu newidiadau sy'n dod i'r amlwg. Teimlwyd bod y dull gweithredu hwn yn galluogi Awdurdodau Lleol i bennu ac asesu nodau byrdymor, tymor canolig a hirdymor (42% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (14)).
- Awgrymodd rhai fod diweddariadau blynyddol yn cael eu gwerthfawrogi er mwyn galluogi Awdurdodau Lleol i addasu i dueddiadau sy'n dod i'r amlwg, olrhain cynnydd, a nodi rhwystrau mewn amser real (16% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (6)).

Mynegodd lleiafrif bach (21%) o'r ymatebwyr bryderon am y cylch pum mlynedd. Mae'r prif bryderon a nodwyd gan y rheini a gyflwynodd sylwadau yn cynnwys y canlynol:

- Nododd rhai ymatebwyr y gallai cylch pum mlynedd arwain at asesiadau â gwybodaeth wedi dyddio, yn enwedig mewn ardaloedd sy'n destun newidiadau demograffig, newidiadau polisi neu newidiadau economaidd cyflym (12% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (4)).
- Cynigiodd nifer bach o ymatebwyr gylch tair blynedd er mwyn sicrhau y gall ADGPau ymateb yn well i anghenion datblygol teuluoedd a chan nodi y byddai cylch byrrach yn helpu i nodi bylchau a rhwystrau mewn modd amserol ac yn helpu'n well i gasglu'r data meintiol sydd eu hangen i lywio cynlluniau gweithredu yn y dyfodol yn gywir (6% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (2)).

Mae'r gefnogaeth gref a fynegwyd gan y mwyafrif o'r ymatebwyr o blaid cadw'r cylch pum mlynedd yn ymdrin â llawer o'r pryderon a godwyd o ran amseroldeb ac ymatebolrwydd ADGPau ac yn lliniaru'r pryderon hynny, gan ymdrin â nhw drwy'r broses o roi cynlluniau gweithredu ac adroddiadau cynnydd blynyddol ar waith.

**Cwestiwn 3: A yw'r Rheoliadau yn caniatáu cysondeb digonol rhwng yr ADGP a phrosesau cynllunio eraill megis Cynlluniau Llesiant Lleol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Asesiadau Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a Chynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg?**

Cafwyd cyfanswm o 34 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, fel a ganlyn:

| Ateb | Canran | Nifer |
|---|---|---|
| Ydyn | 61.8% | 21 |
| Nac ydyn | 23.5% | 8 |
| Ddim yn berthnasol | 8.8% | 3 |
| Dim ond sylwadau a ddarparwyd | 5.9% | 2 |

Allan o gyfanswm o 34 o ymatebion, cyflwynodd 31 o ymatebwyr sylwadau mewn perthynas â'r cwestiwn hwn.

Datganodd y mwyafrif o'r ymatebwyr (61.8% o'r ymatebwyr (21)) fod y rheoliadau yn caniatáu cysondeb digonol rhwng yr ADGP a phrosesau cynllunio eraill. O'r sylwadau a gyflwynwyd, roedd y prif feysydd y tynnwyd sylw atynt yn cynnwys Cynlluniau Llesiant Lleol, Asesiadau o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae, a Chynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg. Teimlwyd bod y dull integredig hwn yn sicrhau gwell cydlyniad ar draws y blynyddoedd cynnar, addysg, datblygiad iaith, a gwasanaethau llesiant. Fodd bynnag, mynegodd 34% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau bryderon am y diffyg cysondeb presennol rhwng yr ADGP a phrosesau cynllunio statudol eraill fel Cynlluniau Llesiant Lleol, Asesiadau o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a Chynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg, gan nodi y gallai hyn arwain at wasanaethau rhanedig ac at golli cyfleoedd i roi cymorth integredig.

Er gwaethaf y pryderon a godwyd, ar y cyfan, cafwyd cydnabyddiaeth gadarn fod y cynigion yn caniatáu cysondeb digonol rhwng yr ADGP a phrosesau cynllunio eraill, gan feithrin gwell cydlyniad a chydweithrediad ar draws meysydd polisi a phrosesau allweddol.

**Cwestiwn 4: A ydych yn credu y bydd cyflwyno cyfarfodydd monitro blynyddol gyda Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chynllunio camau gweithredu ADGPau Awdurdodau Lleol, a gaiff eu cynnwys fel rhan o'r Canllawiau Statudol, yn ddefnyddiol er mwyn monitro cynnydd ar gamau gweithredu a**

**gymerwyd i sicrhau digonolrwydd a'r heriau sy'n effeithio ar y farchnad gofal plant?**

Cafwyd cyfanswm o 35 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, fel a ganlyn:

| Ateb | Canran | Nifer |
|---|---|---|
| Ydw | 91% | 32 |
| Nac ydw | 6% | 2 |
| Ddim yn berthnasol | 3% | 1 |

Allan o gyfanswm o 35 o ymatebion, cyflwynodd 34 o ymatebwyr sylwadau mewn perthynas â'r cwestiwn hwn. Rhoddodd yr ymatebwyr amrywiaeth eang o adborth manwl, gan gynnig sylwadau gwerthfawr pa bynnag ateb a roddwyd i'r cwestiwn. Cyfeiriodd eu sylwadau at werth cyfarfodydd monitro blynyddol mewn perthynas â chynllunio camau gweithredu ADGPau, gan hefyd nodi pryderon ac awgrymu meysydd y byddai'n werth eu hystyried ymhellach.

Ceir crynodeb o rai o'r canfyddiadau allweddol gan y rheini a gyflwynodd sylwadau isod:

- Roedd ymatebwyr yn gwerthfawrogi'r cyfle ar gyfer deialog parhaus, adborth amserol a nodi heriau yn gynnar, a fyddai, yn eu barn nhw, yn galluogi ymyriadau mwy ymatebol wedi'u targedu'n well er mwyn gwella digonolrwydd gofal plant (65% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (22)).
- Mynegwyd cefnogaeth o blaid ethos y dull gweithredu arfaethedig, ac roedd ymatebwyr yn croesawu cyfleoedd i gyfathrebu mwy, trefniadau monitro cadarnach, a phrosesau ar gyfer datrys problemau ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol (50% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (17)).
- Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y byddai cyfarfodydd monitro blynyddol gyda Llywodraeth Cymru yn gwella atebolrwydd ac yn helpu i ymdrin â heriau a bylchau a monitro cynnydd mewn perthynas â chynlluniau gweithredu (15% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (5)).
- Roedd rhai o'r farn y byddai cyfarfodydd monitro blynyddol yn hyrwyddo tryloywder, yn annog cydweithrediad a phrosesau ar gyfer rhannu gwersi rhwng Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol ac yn hwyluso prosesau ar gyfer rhannu arferion gorau yn rhanbarthol ac yn genedlaethol (9% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (3)).
- Roedd rhai yn credu y byddai o fudd i Lywodraeth Cymru gynnal trosolwg cenedlaethol, gan helpu i sicrhau cysondeb, nodi tueddiadau ehangach, a llywio datblygiad polisïau (9% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (3)).

- Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylid cynnwys adborth gan randdeiliaid yn y blynyddoedd cynnar neu rieni fel rhan o'r broses, gan helpu i nodi arferion gorau a sicrhau bod anghenion a safbwyntiau lleol yn cael eu hystyried wrth lunio cynlluniau cenedlaethol. (9% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (3)).
- Roedd rhai sylwadau yn ymwneud ag ansicrwydd ynghylch defnyddioldeb uniongyrchol y Cyfarfodydd Blynyddol i Awdurdodau Lleol oni fyddai pwyntiau trafod yn cael eu nodi'n glir a'u cysylltu â gwaith cynllunio yn y dyfodol. (6% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (2)).

Yn gyffredinol, roedd ymatebwyr (91%) o'r farn y byddai cynnal cyfarfodydd monitro blynyddol gyda Llywodraeth Cymru i Awdurdodau Lleol mewn perthynas â chynllunio camau gweithredu ADGPau o fudd o ran olrhain cynnydd ar gamau gweithredu a gymerwyd i sicrhau digonolrwydd ac ymdrin â'r heriau sy'n effeithio ar y sector gofal plant.

**Cwestiwn 5: Sut y gall gwybodaeth leol gael ei hymgorffori'n well ym mhroses yr ADGP er mwyn ei wneud yn fwy ystyrlon a chadarn?**

Cyflwynodd cyfanswm o 32 o ymatebwyr sylwadau mewn perthynas â'r cwestiwn hwn. Rhoddodd yr ymatebwyr amrywiaeth eang o adborth manwl, gan gynnig sylwadau gwerthfawr a fydd yn ddefnyddiol wrth helpu i roi'r rheoliadau ar waith. Ceir crynodeb o rai o'r canfyddiadau allweddol gan y rheini a gyflwynodd sylwadau isod:

- Pwysleisiodd ymatebwyr bwysigrwydd cynnwys gwybodaeth leol, gwybodaeth arall, a phrofiadau bywyd yn ystod pob cam o broses yr ADGP er mwyn rhoi cyd-destun, esbonio anomaleddau, a sicrhau darlun llawn a chywir o'r cyflenwad a'r galw (47% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (15)).
- Roedd ymatebwyr yn teimlo ei bod hi'n hanfodol parhau i ymgysylltu ag amrywiaeth eang o randdeiliaid (gan gynnwys darparwyr gofal plant, rhieni, gofalwyr, sefydliadau'r trydydd sector, a rhwydweithiau cymunedol) er mwyn casglu gwybodaeth ansoddol a nodi anghenion go iawn teuluoedd, gan gynnwys grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, gan eu bod o'r farn eu bod yn helpu i nodi problemau o ran capasiti, pryderon yn ymwneud â chynaliadwyedd, a thueddiadau sy'n dod i'r amlwg yn gyflymach na dibynnu ar drefniadau casglu data statig neu anfynych (25% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (8)).
- Nododd ymatebwyr fod cyfuno data meintiol (fel Datganiadau Hunanasesu Gwasanaeth Arolygiaeth Gofal Cymru, data genedigaethau byw, data Byrddau Iechyd a data Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd) â data ansoddol (fel adborth lleol, tystiolaeth anecdotaidd, a phrofiadau bywyd) yn

arwain at asesiad mwy cadarn ac ystyrlon o'r ddarpariaeth gofal plant a bylchau yn y ddarpariaeth honno (22% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (7)).

- Roedd ymatebwyr o'r farn bod gwybodaeth leol yn allweddol er mwyn deall effaith materion fel gwledigrwydd, patrymau cyflogaeth, trafnidiaeth, anghenion iaith, a symudedd y boblogaeth (e.e., teuluoedd yn y lluoedd arfog), na fyddent o bosibl yn amlwg o ystyried data meintiol yn unig (16% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (5)).
- Roedd ymatebwyr yn gwerthfawrogi'r rhyddid i gynnwys naratif a gwybodaeth gyd-destunol mewn adroddiadau. Argymhellwyd y dylid atgyfnerthu'r canllawiau i dynnu sylw at werth gwybodaeth leol, gan hefyd eirioli o blaid trefniadau gwell ar gyfer rhannu setiau data cenedlaethol er mwyn lleihau achosion o ddyblygu a llwyth gwaith staff (13% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (4)).

**Cwestiwn 6: A fydd seilio'r ADGP ar wybodaeth o ystod eang o ffynonellau a gan ddefnyddio mesurau procsi yn helpu i ddarparu asesiad mwy cadarn? (Dangosyddion anuniongyrchol yw mesurau procsi y gellir eu defnyddio i asesu nodwedd y mae'n anodd ei mesur yn uniongyrchol).**

Cafwyd cyfanswm o 34 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, fel a ganlyn:

| Ateb | Canran | Nifer |
|---|---|---|
| Bydd | 82% | 28 |
| Na fydd | 9% | 3 |
| Ddim yn berthnasol | 3% | 1 |
| Dim ond sylwadau a ddarparwyd | 6% | 2 |

Allan o gyfanswm o 34 o ymatebion, cyflwynodd 33 o ymatebwyr sylwadau mewn perthynas â'r cwestiwn hwn. Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr (82%) yn cytuno y gallai defnyddio gwybodaeth o ystod eang o ffynonellau a gan ddefnyddio mesurau procsi helpu i ddarparu asesiad mwy cadarn. Ceir crynodeb o rai o'r canfyddiadau allweddol gan y rheini a gyflwynodd sylwadau isod:

- Roedd ymatebwyr yn cytuno y byddai defnyddio ystod eang o ffynonellau data a mesurau procsi, ochr yn ochr â data uniongyrchol, yn gwella cadernid ac ystyrlonder cyffredinol yr ADGP. Pwysleisiwyd bod cydweithrediad rhwng Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol, a sefydliadau yn y sector yn bwysig er mwyn nodi mesurau procsi perthnasol, egluro diffiniadau, a sicrhau cysondeb ledled Cymru (58% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (19)).

- Nododd ymatebwyr fod mesurau procsi yn ddefnyddiol, yn enwedig lle nad oedd llawer o ddata uniongyrchol ar gael neu lle roedd yn anodd cael gafael ar ddata o'r fath (e.e., ar gyfer plant ag anghenion ychwanegol neu boblogaethau sy'n newid yn gyflym), ond cafwyd rhybudd nad oedd mesurau o'r fath bob amser yn gwbl gywir ac y gallent arwain at ganlyniadau anfwriadol pe na chânt eu rheoli'n ofalus (70% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (23)).
- Nododd ymatebwyr fod defnyddio ffynonellau data a mesurau procsi cyson ar draws pob Awdurdod Lleol yn ei gwneud hi'n haws cymharu, dadansoddi tueddiadau a chynllunio mewn ffordd strategol, ond roedd angen eu dehongli'n ofalus i osgoi cyffredinoli neu lunio tybiaethau anghywir yn seiliedig ar ddata procsi yn unig. Roeddent yn awyddus i gael Canllawiau Statudol clir, gan roi eglurder o ran mesurau procsi derbyniol a sut y dylid eu cymhwyso, er mwyn sicrhau asesiadau dilys, dibynadwy a chymaradwy ledled Cymru (18% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (6)).

Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr (82%) yn cytuno y byddai seilio'r ADGP ar wybodaeth o ystod o ffynonellau a gan ddefnyddio mesurau procsi yn arwain at asesiad mwy cadarn ac ystyrlon. Er bod y sylwadau yn awgrymu bod mesurau procsi yn arbennig o werthfawr lle na fydd llawer o ddata uniongyrchol ar gael, pwysleisiodd ymatebwyr fod angen canllawiau clir a dehongliadau gofalus er mwyn sicrhau cysondeb a dibynadwyedd ledled Cymru.

**Cwestiwn 7: Pa ddiffiniadau perthnasol y gellid eu gwella a/neu pa dempledi y gellid eu cynnwys yn y Canllawiau Statudol er mwyn helpu i sicrhau cysondeb wrth ddehongli a dadansoddi data?**

Cyflwynodd cyfanswm o 24 o ymatebwyr sylwadau mewn perthynas â'r cwestiwn hwn. Rhoddodd yr ymatebwyr amrywiaeth eang o adborth manwl, gan gynnig sylwadau gwerthfawr i helpu i roi'r rheoliadau ar waith. Ceir crynodeb o rai o'r canfyddiadau allweddol gan y rheini a gyflwynodd sylwadau isod:

- Nododd ymatebwyr fod angen diffiniadau clir a chyson ar gyfer y mathau o ofal plant a gwasanaethau gofal plant, fel gofal plant cofleidiol, gofal dydd llawn a gofal sesiynol; a chategorïau iaith, gan nodi fod terminoleg amwys yn arwain at amrywiadau rhanbarthol a dryswch (33% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (8)).
- Nododd ymatebwyr y dylai'r templedi ar gyfer casglu data, cynlluniau gweithredu, ac adroddiadau gael eu safoni a'u symleiddio er mwyn lleihau'r baich gweinyddol a helpu i gymharu data mewn ffordd fwy ystyrlon ledled Cymru (29% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (7)).

- Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y dylid diwygio'r Canllawiau Statudol i adlewyrchu'r derminoleg bresennol a newidiadau deddfwriaethol, ac y dylid sicrhau eu bod ar gael i Awdurdodau Lleol ymhell cyn y cylch nesaf o ADGPau (21% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (5)).
- Roedd rhai ymatebwyr o'r farn bod y templedi a'r arolygon presennol (fel yr holiaduron i rieni/gofalwyr a darparwyr gofal plant) yn rhy hir neu gymhleth, a oedd yn atal pobl rhag eu cwblhau ac yn ei gwneud hi'n anodd eu dadansoddi (17% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (4)).
- Nododd nifer bach o'r ymatebwyr y dylid diwygio'r derminoleg a'r categorïau a ddefnyddir gan Arolygiaeth Gofal Cymru er mwyn sicrhau eu bod yn gyson â'r canllawiau statudol, a bod angen egluro diffiniadau fel gofal dydd llawn a gofal sesiynol er mwyn adlewyrchu'r ymarfer gwirioneddol (8% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (2)).
- Nododd nifer bach o'r ymatebwyr bwysigrwydd sicrhau bod y categorïau Cymraeg yn cyfateb i'r categorïau a ddefnyddir mewn Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg, ac y dylid nodi cyfrwng iaith a chanlyniadau ieithyddol hirdymor plant yn glir (8% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (2)).

**Cwestiwn 8: A yw'r gwasanaethau gofal plant a gaiff eu cofnodi yn erbyn y mathau o ofal plant yn Atodlen 3 o'r Canllawiau Statudol cyfredol yn adlewyrchu'r ffordd y caiff gwasanaethau eu dehongli yn y tirlun presennol?**

Cafwyd cyfanswm o 32 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, fel a ganlyn:

| Ateb | Canran | Nifer |
|---|---|---|
| Ydyn | 38% | 12 |
| Nac ydyn | 59% | 19 |
| Ddim yn berthnasol | 3% | 1 |

Allan o gyfanswm o 32 o ymatebion, cyflwynodd 25 o ymatebwyr sylwadau mewn perthynas â'r cwestiwn hwn. Rhoddodd yr ymatebwyr amrywiaeth eang o adborth manwl, gan gynnig sylwadau gwerthfawr pa bynnag ateb a roddwyd i'r cwestiwn.

Er bod 38% o'r ymatebwyr yn cytuno bod y gwasanaethau gofal plant a gaiff eu cofnodi yn erbyn y mathau o ofal plant yn adlewyrchu'r ffordd y caiff gwasanaethau eu dehongli yn y tirlun presennol, nid oedd 59% o'r ymatebwyr o'r farn bod hynny'n wir. Ceir crynodeb o rai o'r canfyddiadau allweddol gan y rheini a gyflwynodd sylwadau isod:

- Gofynnwyd am ddiffiniadau a chategorïau cliriach wedi'u diweddaru yn y Canllawiau Statudol er mwyn gwella cysondeb, cywirdeb a pherthnasedd yn yr ADGPau a gynhelir gan Awdurdodau Lleol (40% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (10)).
- Nododd llawer o'r rheini a gyflwynodd sylwadau bryderon ynghylch cywirdeb ac ymarferoldeb gwasanaethau a restrir yn Atodlen 3 y Canllawiau Statudol, gan sôn yn benodol bod categorïau fel sesiynau hanner diwrnod, darpariaeth creche ac "arall" yn drysu rhieni a darparwyr fel ei gilydd, a bod risg y byddent yn cuddio data defnyddiol (68% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (17)).
- Roedd rhai ymatebwyr o'r farn nad oedd yr ystod gwasanaethau plant na'u categorïau yn adlewyrchu'r tirlun presennol yn llawn, gan fod llawer o ddarparwyr yn cynnig modelau cyfunol neu hyblyg, a bod anghenion rhieni yn amrywio yn ôl oedran, lleoliad ac amser o'r dydd (16% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (4)).
- Awgrymodd un ymatebydd y gellid symleiddio'r categorïau i ganolbwyntio ar wahaniaethau ymarferol: gofal cofleidiol; darpariaeth cyn/ar ôl ysgol; gofal dydd llawn; sesiwn rhan o'r dydd; a gofal yn ystod y gwyliau – a nodi'n glir pa gategorïau sy'n cael eu hystyried fel gofal plant (4% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau).
- Awgrymodd un ymatebydd na ddylid ystyried cynlluniau gwaith chwarae mynediad agored na chynlluniau chwarae yn ystod y gwyliau fel gofal plant, gan fod hyn yn mynd yn groes i'r ethos fod gan blant yr hawl i chwarae. Fodd bynnag, cytunwyd y dylai unrhyw ddiffiniad terfynol fod yn gydnaws ag ymgyngoriadau parhaus Llywodraeth Cymru[2] (4% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau).

Yn gryno, mae'r ymatebwyr a gyflwynodd sylwadau o'r farn y dylid diweddaru'r Canllawiau Statudol. Maent yn teimlo bod angen iddynt gynnwys categorïau a diffiniadau cliriach er mwyn adlewyrchu'r gwasanaethau gofal plant amrywiol ac addasadwy sydd ar gael ar hyn o bryd. Byddai'r newidiadau hyn yn gwella cysondeb, yn gwneud y data yn fwy perthnasol a defnyddiol, ac yn helpu rhieni a darparwyr i wneud penderfyniadau mwy hyddysg. Caiff yr adborth hwn ei ystyried wrth ddatblygu'r Canllawiau Statudol diwygiedig.

**Cwestiwn 9: A yw'r arolygon sydd wedi'u cynnwys yn Atodlenni 4, 5 a 6 o'r Canllawiau Statudol cyfredol yn addas at y diben yn eich barn chi?**

[2]Ymgynghoriad yn ymwneud â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol a'r Gorchymyn Eithriadau a gynhaliwyd yn 2025.

Cafwyd cyfanswm o 33 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, fel a ganlyn:

| Ateb | Canran | Nifer |
|---|---|---|
| Ydyn | 12% | 4 |
| Nac ydyn | 76% | 25 |
| Ddim yn berthnasol | 6% | 2 |
| Dim ond sylwadau a ddarparwyd | 6% | 2 |

Allan o gyfanswm o 33 o ymatebwyr, cyflwynodd 29 ohonynt sylwadau mewn perthynas â'r cwestiwn hwn. Rhoddodd yr ymatebwyr amrywiaeth eang o adborth manwl, gan gynnig sylwadau gwerthfawr pa bynnag ateb a roddwyd i'r cwestiwn.

Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr (76%) o'r farn nad oedd yr arolygon yn addas at y diben. Nododd tua hanner (48%) yr ymatebwyr (14) a gyflwynodd sylwadau fod yr arolygon a'r holiaduron, yn enwedig y rheini yn Atodlenni 4, 5 a 6, yn rhy hir, yn rhy gymhleth, ac yn cymryd gormod o amser i'w cwblhau. Roeddent o'r farn bod hyn yn ffactor sylweddol a oedd yn atal pobl rhag eu cwblhau ac yn lleihau cywirdeb, gan arwain at gyfraddau ymateb isel a data anghyflawn neu anghywir.

Roedd teimladau cryf y dylid symleiddio'r arolygon, eu cwtogi a'u gwneud yn fwy eglur – a hynny i ddarparwyr ac i rieni/gofalwyr. Awgrymwyd y dylid adolygu a diweddaru'r arolygon mewn partneriaeth â'r sector gofal plant a rhieni, gan ganolbwyntio ar ddileu neu symleiddio cwestiynau, lleihau achosion o ddyblygu, a defnyddio iaith glir a hygyrch gan ystyried y rheini â sgiliau llythrennedd is. Cafwyd awgrymiadau hefyd o ran ffyrdd mwy effeithiol a chryno o gasglu dyheadau a phrofiadau teuluoedd, fel gofyn cwestiynau fel rhan o drefniadau cyswllt sy'n bodoli eisoes (e.e., yn ystod apwyntiadau brechu).

Ceir crynodeb o rai o'r canfyddiadau allweddol gan y rheini a gyflwynodd sylwadau isod:

- Roedd ymatebwyr yn awyddus i'r broses gael ei gwneud yn llai beichus i ddarparwyr, yn enwedig i warchodwyr plant unigol, gan sicrhau bod unrhyw wybodaeth ofynnol yn berthnasol, yn hawdd i'w chwblhau, ac yn wirioneddol ddefnyddiol o safbwynt cynllunio a dadansoddi (34% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (11)).
- Cododd ymatebwyr bryderon am achosion diangen o ddyblygu data, yn enwedig lle roedd gwybodaeth eisoes yn cael ei chasglu gan y Datganiadau Hunanasesu Gwasanaeth (SASS), Arolygiaeth Gofal Cymru, ac Awdurdodau Lleol. Awgrymodd ymatebwyr y dylid defnyddio ffynonellau data sy'n bodoli

eisoes lle bynnag y bo'n bosibl, ac y dylai'r arolygon ganolbwyntio ar gasglu gwybodaeth ansoddol nad yw ar gael mewn mannau eraill (31% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (9)).

- Nododd ymatebwyr nad oedd yr arolygon i rieni a darparwyr yn ymdrin yn ddigonol ag anghenion a phrofiadau penodol teuluoedd â phlant anabl a phlant ag anghenion sy'n dod i'r amlwg/Anghenion Dysgu Ychwanegol (24% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (7)).
- Nododd ymatebwyr fod llawer o'r data gofynnol am y gweithlu eisoes yn cael eu dal gan Awdurdodau Lleol neu drwy systemau eraill, ac nad oedd angen eu cynnwys yn yr arolygon felly. Gofynnwyd hefyd am gwestiynau mwy perthnasol am y gweithlu, fel trosiant staff a chyfraddau cadw (14% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (4)).
- Argymhellwyd y dylid diweddaru'r arolygon i adlewyrchu newidiadau o ran y cyrff rheoleiddio (e.e., o AGGCC i Arolygiaeth Gofal Cymru) ac i sicrhau cysondeb â deddfwriaeth bresennol, fel y Cod Ymarfer ar gyfer anghenion sy'n dod i'r amlwg/Anghenion Dysgu Ychwanegol a Fframwaith Cymwysterau Gofal Cymdeithasol Cymru (14% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (4)).
- Cydnabu ymatebwyr fod yr arolygon yn casglu gwybodaeth ddefnyddiol am fathau o ofal plant, pa mor aml y caiff gwasanaethau eu defnyddio, a beth sydd ar gael, ond roeddent o'r farn eu bod yn rhy hir ar eu ffurf bresennol (10% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (3)).

Yn gryno, nododd ymatebwyr fod angen symleiddio ac egluro'r arolygon sydd wedi'u cynnwys yn y Canllawiau Statudol yn sylweddol, gan ganolbwyntio ar osgoi achosion o ddyblygu a sicrhau perthnasedd i bob teulu a darparwr. Bydd y wybodaeth hon yn allweddol wrth lywio'r Canllawiau Statudol diwygiedig, er mwyn cefnogi trefniadau casglu data mwy effeithiol, cynhwysol ac ymarferol i lywio polisïau a darpariaeth gofal plant yn y dyfodol.

**Cwestiwn 10: Pa arolygon neu ddulliau ychwanegol y byddech yn eu hargymell i helpu Awdurdodau Lleol i gasglu data er mwyn asesu'r galw am ofal plant yn fwy effeithiol?**

Cyflwynodd cyfanswm o 31 o ymatebwyr sylwadau mewn perthynas â'r cwestiwn hwn. Rhoddodd yr ymatebwyr amrywiaeth eang o adborth manwl, gan gynnig sylwadau gwerthfawr a fydd yn ddefnyddiol wrth helpu i roi'r rheoliadau ar waith.

Ceir crynodeb o rai o'r canfyddiadau allweddol gan y rheini a gyflwynodd sylwadau isod:

- Roedd rhai ymatebwyr o'r farn bod yr ADGP presennol a'r ffurflenni cysylltiedig yn rhy hir a chymhleth, gan argymell y dylid eu symleiddio a'u gwneud yn fwy cyson ag asesiadau statudol eraill er mwyn osgoi achosion o ddyblygu a lleihau'r baich. Gwnaethant nodi y byddai'n well ganddynt ddulliau sy'n haws eu defnyddio wrth gasglu gwybodaeth, fel arolygon yn seiliedig ar luniau â chwestiynau cryno, yn lle arolygon traddodiadol ychwanegol (13% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (4)).
- Roedd un ymatebydd o'r farn bod arolygon lleol i rieni mewn ardaloedd â bylchau posibl yn y ddarpariaeth gofal plant yn fwy effeithiol wrth ddeall y galw nag arolygon cyffredinol ehangach sy'n cael eu cynnal ledled bwrdeistrefi cyfan (3% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau).
- Awgrymodd un ymatebydd y gellid gweithio gydag ysgolion, cydlynwyr anghenion sy'n dod i'r amlwg/Anghenion Dysgu Ychwanegol, a gweithwyr iechyd proffesiynol (fel Ymwelwyr Iechyd), gan fod y gweithwyr proffesiynol hyn yn aml yn gwybod pa deuluoedd sy'n ei chael hi'n anodd dod o hyd i ofal plant addas a'r rhesymau dros hynny (3% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau).
- Awgrymodd un ymatebydd y gellid defnyddio arolygon a dulliau ychwanegol i helpu Awdurdodau Lleol i ddeall y galw am ofal plant gan deuluoedd â phlant ag Angen Dysgu Ychwanegol/anabledd yn well. Gallai'r cwestiynau gynnwys pa mor hawdd yw hi i ddefnyddio gofal plant, pa mor fforddiadwy ydyw, a yw lleoliadau yn hygyrch a pha gymorth sydd ar goll (3% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau).
- Awgrymodd un ymatebydd y gallai archwilio sut roedd lleoliadau gofal plant presennol yn gwella eu prosesau ar gyfer ymgysylltu â phobl â nodweddion gwarchodedig, wedi'u cefnogi gan wybodaeth leol a mentrau hyfforddiant fel Dysgu Proffesiynol Amrywiaeth a Gwrth-hiliaeth, ddarparu gwybodaeth fwy ystyrlon (3% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau).
- Roedd un ymatebydd o'r farn y byddai defnyddio arolygon sy'n bodoli eisoes (er enghraifft, fel y rheini a gynhelir gan Gronfa'r Teulu) a allai gynnwys cwestiynau pellach am ofal plant, yn rhoi darlun cliriach o ba gymorth sydd ei angen ac yn rhoi gwybodaeth bwysig am y pwysau ariannol y mae teuluoedd yn eu hwynebu (3% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau).

**Cwestiwn 11: A oes gwelliannau pellach y gellid eu gwneud yn eich barn chi i leihau'r baich gweinyddol a'r adnoddau sydd eu hangen i goladu data a gwybodaeth er mwyn asesu'r cyflenwad gofal plant a'r galw amdano?**

Cyflwynodd cyfanswm o 31 o ymatebwyr sylwadau mewn perthynas â'r cwestiwn hwn. Rhoddodd yr ymatebwyr amrywiaeth eang o adborth manwl, gan gynnig

sylwadau gwerthfawr a fydd yn ddefnyddiol wrth helpu i roi'r rheoliadau ar waith. Ceir crynodeb o rai o'r canfyddiadau allweddol gan y rheini a gyflwynodd sylwadau isod:

- Awgrymodd rhai y dylai Llywodraeth Cymru ddarparu gwybodaeth wedi'i dadansoddi a setiau data symlach wedi'u llenwi ymlaen llaw yn hytrach na data crai neu ddienw. Teimlwyd y byddai hyn yn sicrhau cysondeb ar draws Awdurdodau Lleol ac yn galluogi prosesau dadansoddi a chymharu mwy effeithlon (42% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (13)).
- Nododd rhai ymatebwyr fod angen datrysiadau digidol gwell, fel ADGPau ar-lein sy'n cael eu diweddaru'n rheolaidd, systemau data canolog, a llwyfannau digidol cydweithredol ar gyfer rhannu data mewn amser real ymhlith rhanddeiliaid (26% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (8)).
- Nododd rhai ymatebwyr y byddai'n well ganddynt adnoddau casglu data wedi'u safoni a'u symleiddio, fel templedi cyffredinol neu genedlaethol, pyrth ar-lein, a dangosfyrddau i'w rhannu, er mwyn lleihau achosion o ddyblygu ymdrech a'r baich gweinyddol ar Awdurdodau Lleol a darparwyr gofal plant (19% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau) (6)).
- Roedd rhai ymatebwyr yn awyddus i gael trefniadau integreiddio a rhannu data gwell rhwng Llywodraeth Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru, Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd ac Awdurdodau Lleol, yn ogystal â gwell defnydd o ddata presennol a threfniadau cydweithio â sefydliadau yn y trydydd sector a chyrff cynrychioliadol cenedlaethol ar gyfer gofal plant a chwarae (19% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (6)).
- Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylid cyfuno'r arolygon lluosog i greu un arolwg blynyddol hygyrch i rieni a darparwyr, gan nodi bod gormodedd o arolygon a cheisiadau mynych i'w cwblhau yn arwain at gyfraddau ymateb is a llwyth gwaith diangen (10% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (3)).

**Cwestiwn 12: A fyddai cyflwyno dull mwy safonedig o goladu a chofnodi gwybodaeth (er enghraifft, drwy dempledi) yn ddefnyddiol i Awdurdodau Lleol wrth ymgymryd â phroses yr ADGP yn eich barn chi?**

Cafwyd cyfanswm o 34 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, fel a ganlyn:

| Ateb | Canran | Nifer |
|---|---|---|
| Byddai | 85% | 29 |
| Na fyddai | 9% | 3 |
| Ddim yn berthnasol | 3% | 1 |
| Dim ond sylwadau a ddarparwyd | 3% | 1 |

Allan o gyfanswm o 34 o ymatebion, cyflwynodd 33 o ymatebwyr sylwadau mewn perthynas â'r cwestiwn hwn.

Roedd cryn gefnogaeth o blaid mabwysiadu dull mwy safonedig o goladu a chofnodi gwybodaeth, gydag 85% (29) o'r ymatebwyr yn cytuno â'r dull gweithredu hwn. Rhoddodd ymatebwyr amrywiaeth eang o adborth manwl, gan gynnig sylwadau gwerthfawr ar y manteision posibl a'r meysydd i'w hystyried wrth fabwysiadu'r dull gweithredu hwn.

Ceir crynodeb o rai o'r canfyddiadau allweddol gan y rheini a gyflwynodd sylwadau isod:

- Roedd ymatebwyr o'r farn y byddai templedi a phrosesau safonedig yn arbed amser, yn lleihau achosion o ddyblygu ymdrech, ac yn cefnogi Awdurdodau Lleol â chapasiti dadansoddi cyfyngedig. Ystyriwyd bod y dull gweithredu hwn yn hyrwyddo tryloywder ac yn galluogi Llywodraeth Cymru a chyrff eraill i nodi tueddiadau a bylchau yn fwy effeithiol. Awgrymwyd y dylid datblygu unrhyw dempledi neu brosesau newydd drwy ymgynghori ag Awdurdodau Lleol, gan sicrhau eu bod yn ymarferol ac yn gymesur a'u bod yn adlewyrchu'r realiti lleol (55% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (18)).
- Roedd ymatebwyr i raddau helaeth o blaid mwy o gysondeb ac ymdrechion i safoni dulliau ar gyfer casglu a chofnodi data'r ADGP ledled Cymru gan dynnu sylw at y ffaith bod amrywiadau presennol yn y ffordd mae Awdurdodau Lleol yn casglu ac yn defnyddio data yn ei gwneud hi'n anodd cymharu gwybodaeth neu lunio darlun cenedlaethol cyflawn. Credwyd y byddai dull unedig yn hwyluso prosesau cydweithio trawsffiniol ac yn gwneud y broses yn fwy effeithlon i Awdurdodau Lleol, rhanddeiliaid a theuluoedd (48% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (16)).
- Nododd ymatebwyr y byddai defnyddio gwybodaeth o ffynonellau sy'n bodoli eisoes (fel Datganiadau Hunanasesu Gwasanaeth AGC) a chysoni â'r rheoliadau diwygiedig yn symleiddio'r broses ymhellach ac yn osgoi beichiau diangen ar Awdurdodau Lleol a darparwyr gofal plant (6% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (2)).
- Argymhellodd un ymatebydd y dylai dull safonedig barhau'n ddewisol neu'n hyblyg er mwyn ystyried amgylchiadau unigryw pob Awdurdod Lleol (3% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau).

Yn gyffredinol, roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr o blaid dull symlach, mwy safonedig o gasglu a chofnodi data fel rhan o broses yr ADGP, gan nodi y gallai wella effeithlonrwydd, cysondeb a'r gallu i nodi tueddiadau ledled Cymru. Mae'r adborth yn pwysleisio pwysigrwydd datblygu datrysiadau ymarferol gan ymgynghori'n agos ag

Awdurdodau Lleol i sicrhau bod unrhyw newidiadau yn gymesur, yn berthnasol a'u bod wir yn lleihau'r baich gweinyddol.

**Cwestiwn 13: A ydych yn cytuno bod y diwygiadau arfaethedig i'r Rheoliadau yn mynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn ddigonol?**

Cafwyd cyfanswm o 32 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, fel a ganlyn:

| Ateb | Canran | Nifer |
|---|---|---|
| Ydw | 41% | 13 |
| Nac ydw | 47% | 15 |
| Ddim yn berthnasol | 9% | 3 |
| Dim ond sylwadau a ddarparwyd | 3% | 1 |

Allan o gyfanswm o 32 o ymatebion, cyflwynodd 24 o ymatebwyr sylwadau mewn perthynas â'r cwestiwn hwn. Cafwyd sylwadau cymysg ynghylch a yw'r diwygiadau arfaethedig i'r Rheoliadau yn mynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn ddigonol gyda 41% o'r ymatebwyr yn cytuno a 47% yn anghytuno.

Er gwaethaf rhai newidiadau cadarnhaol, roedd ymatebwyr yn teimlo'n gyson nad oedd y diwygiadau yn mynd yn ddigon pell i leihau llwyth gwaith Awdurdodau Lleol o ddifri nac i sicrhau bod yr ADGP yn ddogfen fwy ystyrlon ac yn haws ei defnyddio. Ceir crynodeb o rai o'r canfyddiadau allweddol gan y rheini a gyflwynodd sylwadau isod:

- Roedd ymatebwyr o'r farn er bod rhai o'r diweddariadau i'w croesawu (megis canllawiau cliriach, cynnwys grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, a ffocws ar ddarparu ar gyfer plant anabl), fod y broses gyffredinol yn parhau'n gymhleth a bod angen llawer o amser ac adnoddau o hyd i Awdurdodau Lleol ei chwblhau (46% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (11)).
- Roedd ymatebwyr o'r farn y byddai'r broses ddiwygiedig ar gyfer yr ADGP yn parhau i osod baich gweinyddol trwm ar Awdurdodau Lleol oherwydd y swm mawr o wybodaeth sydd ei hangen. Roedd llawer o'r farn nad oedd y diwygiadau wedi lleihau'r baich hwn ac, mewn rhai achosion, eu bod wedi ei gynyddu drwy ychwanegu gofynion newydd fel y gofyniad i ymgynghori â rhanddeiliaid ychwanegol (38% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (9)).
- Nododd un ymatebydd fod angen defnyddio mesurau procsi a thempledi data safonedig yn well, a bod angen canllawiau cliriach ar gasglu data. Teimlwyd bod y gofynion data presennol yn rhy fanwl, nad oeddent o reidrwydd yn

ychwanegu gwerth at brosesau datblygu polisïau neu brosesau dyrannu adnoddau a bod lefel y manylion disgwyliedig yn llethol ac yn peri risg y byddai canfyddiadau allweddol yn cael eu cuddio. Tynnwyd sylw at well hyblygrwydd a chysondeb â dyletswyddau cynllunio ehangach, yn ogystal â defnyddio ffynonellau data sy'n bodoli eisoes (4% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau).

I gloi, er bod yr ymatebwyr yn croesawu llawer o'r gwelliannau, gwnaethant hefyd fynegi rhai pryderon parhaus ynghylch cymhlethdod a gofynion gweinyddol y broses ddiwygiedig. Roedd yr ymatebwyr yn cytuno'n gyffredinol y dylid mabwysiadu mesurau procsi, templedi data safonedig, a chanllawiau cliriach er mwyn symleiddio'r broses casglu data, ochr yn ochr â gwell hyblygrwydd a chysondeb â dyletswyddau cynllunio presennol.

**Cwestiwn 14: A ydych yn cytuno bod y manylion isod yn darparu digon o eglurder o ran y gwasanaethau a gaiff eu cofnodi mewn perthynas â'r Atodlen 'Materion i'w cynnwys yn yr asesiad', sef atodlen 2 (i) o'r Rheoliadau diwygiedig arfaethedig (y bwriad yw cynnwys hyn yn y Canllawiau Statudol)?:**

**oriau annodweddiadol;**

**gofal llawn amser a rhan amser;**

**dydd llawn;**

**AM/PM;**

**cofleidiol (am/pm/cinio);**

**gwyliau;**

**yn ystod y tymor.**

Cafwyd cyfanswm o 34 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, fel a ganlyn:

| Ateb | Canran | Nifer |
|---|---|---|
| Ydw | 56% | 19 |
| Nac ydw | 32% | 11 |
| Ddim yn berthnasol | 9% | 3 |
| Dim ond sylwadau a ddarparwyd (nododd yr ymatebydd fod y cwestiwn yn aneglur) | 3% | 1 |

Allan o gyfanswm o 34 o ymatebion, cyflwynodd 23 o ymatebwyr sylwadau mewn perthynas â'r cwestiwn hwn. Er bod y mwyafrif o'r ymatebwyr (56%) y nodi bod y rheoliadau diwygiedig yn darparu digon o eglurder ynghylch y gwasanaethau i'w

cynnwys, nododd 32% bryderon nad oedd digon o eglurder. Ceir crynodeb o rai o'r canfyddiadau allweddol gan y rheini a gyflwynodd sylwadau isod:

- Soniodd llawer o'r rheini a gyflwynodd sylwadau am ddiffyg diffiniadau clir ar gyfer termau allweddol fel "oriau annodweddiadol", "gofal cofleidiol", "dydd llawn", "cyfrwng Cymraeg", a lleoliadau "dwyieithog" (61% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (14)).
- Roedd ymatebwyr yn awyddus i'r canllawiau gynnwys diffiniadau ac enghreifftiau penodol er mwyn sicrhau bod darparwyr, ymarferwyr a rhieni yn dehongli'r mathau o wasanaethau mewn ffordd gyson, er mwyn sicrhau bod y wybodaeth a gesglir yn gywir a bod modd ei chymharu ar gyfer gwahanol Awdurdodau Lleol. Nodwyd bod angen egluro "oriau annodweddiadol", gan gynnwys a ddylai gynnwys dros nos, ar benwythnosau, a phatrymau shifft. Roedd pryder y gallai darparwyr a staff ddehongli'r term hwn yn wahanol, gan arwain at gofnodi anghyson (61% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (14)).
- Roedd ymatebwyr yn awyddus i gael rhagor o fanylion a gwell eglurder ar gyfer categorïau gwasanaeth fel: gofal cyn ac ar ôl ysgol; gofal sesiynol/gwyliau; gofal gwyliau rhannol; ac achosion lle mae clybiau brecwast yn rhan o ddarpariaeth gofleidiol. Awgrymwyd hefyd y dylid cynnwys rhestr termau yn y canllawiau statudol (17% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (4)).
- Gofynnodd un ymatebydd am fwy o eglurder o ran sut y dylid casglu data ar gyfer yr amrywiaeth o wasanaethau, gan gynnwys capasiti, effaith newidiadau yn y boblogaeth, a sut y dylai Awdurdodau Lleol ddiffinio ac asesu'r galw perthnasol (4% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau).

Yn gyffredinol, roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn fodlon i raddau helaeth â'r eglurder a ddarparwyd yn y rheoliadau diwygiedig, gan nodi hefyd fod angen ystyried diffiniadau a chanllawiau ymhellach er mwyn helpu i sicrhau eu bod yn cael eu dehongli mewn ffordd gyson. Roedd ymatebwyr yn croesawu'r cyfle ar gyfer gwaith mireinio ychwanegol, gan gydnabod y byddai'r gwaith hwn yn helpu i sicrhau bod Awdurdodau Lleol yn nodi ac yn cofnodi gwasanaethau yn gywir.

**Cwestiwn 15: O dan yr Atodlen 'Materion i'w cynnwys yn yr asesiad' 2(l), a yw'r ffactorau canlynol yn darparu digon o eglurder o ran yr wybodaeth y dylai Awdurdodau Lleol ei hystyried mewn perthynas â galw (y bwriad yw cynnwys hyn yn y Canllawiau Statudol):**

**dewisiadau rhieni o ran y math o wasanaeth a'i ystod;**

**yr adegau pan fydd angen gofal plant;**

**mynediad at ddarpariaeth sy'n cefnogi plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol a gofal arbenigol oherwydd anabledd;**

**mynediad at ofal plant a gymorthdelir gan y wladwriaeth;**

**nifer y lleoedd gofal plant sydd eu hangen ar gyfer plant hyd at 12 oed, wedi'u dadansoddi yn ôl ystod oedran a math;**

**gwasanaethau gofal plant Cymraeg sydd eu hangen;**

**gwasanaethau gofal plant ieithoedd eraill sydd eu hangen;**

**mynediad at ddarpariaeth sy'n cynnig elfen costau gofal plant Credyd Treth Gwaith neu elfen costau plant Credyd Cynhwysol.**

Cafwyd cyfanswm o 33 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, fel a ganlyn:

| Ateb | Canran | Nifer |
|---|---|---|
| Ydyn | 54.55% | 18 |
| Nac ydyn | 33.33% | 11 |
| Ddim yn berthnasol | 9.09% | 3 |
| Dim ond sylwadau a ddarparwyd | 3.03% | 1 |

Allan o gyfanswm o 33 o ymatebwyr, cyflwynodd 23 o ymatebwyr sylwadau mewn perthynas â'r cwestiwn hwn. Rhoddodd yr ymatebwyr amrywiaeth eang o adborth manwl, gan gynnig sylwadau gwerthfawr pa bynnag ateb a roddwyd i'r cwestiwn. Er bod y mwyafrif o'r ymatebwyr (54.55%) yn cytuno bod y ffactorau yn darparu digon o eglurder o ran yr wybodaeth y dylai Awdurdodau Lleol ei hystyried mewn perthynas â galw, nid oedd 33.33% o'r ymatebwyr yn cytuno. Ceir crynodeb o'r canfyddiadau allweddol gan y rheini a gyflwynodd sylwadau isod:

- Cyfeiriwyd at gyfyngiadau o ran meintioli'r galw yn gywir a'i droi'n ddarpariaeth gwasanaethau effeithiol – fel: cyfraddau ymateb isel i arolygon, natur unigol anghenion teuluoedd, a'r tirlun gofal plant newidiol (22% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (5)).
- Roedd nifer bach o'r ymatebwyr o'r farn ei bod hi'n heriol iawn casglu digon o fanylion i sicrhau cofnodion cywir o hyd (13% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (3)).
- Ystyriwyd bod dewisiadau rhieni yn bwysig ond yn anodd i'w meintioli, ac roedd data ar y galw yn aml yn dibynnu ar ddehongliad rhieni o gwestiynau arolygon yn seiliedig ar eu hamgylchiadau personol (9% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (2)).

- Roedd nifer bach o'r ymatebwyr o'r farn bod angen sicrhau bod geiriad y Canllawiau Statudol yn cyfateb i'r Rheoliadau (megis gofal plant wedi'i ariannu/gofal plant â chymhorthdal gan y wladwriaeth), ac nad oedd gwahaniaethau rhwng angen a dewis wedi'u hadlewyrchu'n glir, gan arwain o bosibl at ddata annibynadwy at ddibenion cynllunio (9% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (2)).
- Nodwyd bod anghenion diwylliannol a chrefyddol yn bwysig wrth ddewis gofal plant. Cydnabuwyd hefyd fod ffactorau daearyddol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, ac mewn achosion lle mae teuluoedd yn symud yn rheolaidd (fel teuluoedd y fyddin), yn creu rhwystrau ychwanegol wrth drefnu gofal plant (9% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (2)).
- Er bod y fframwaith ar gyfer asesu'r galw yn gadarn, roedd un ymatebydd o'r farn bod angen adborth mwy ansoddol a diffiniadau cliriach er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei ddehongli'n gyson a bod trefniadau casglu data cadarn ar waith. (4% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau)

Yn gyffredinol, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn fodlon ar eglurder y ffactorau a nodwyd ar gyfer Awdurdodau Lleol wrth asesu'r galw, gan gydnabod bod y fframwaith yn effeithiol ar y cyfan. Serch hynny, gwnaethant bwysleisio pwysigrwydd gwaith mireinio pellach a diffiniadau cliriach er mwyn cefnogi trefniadau casglu data cyson gadarn a sicrhau y caiff yr holl anghenion eu cofnodi'n gywir.

**Cwestiwn 16: A oes unrhyw heriau neu rwystrau posibl rydych yn eu rhagweld i Awdurdodau Lleol wrth roi'r Rheoliadau diwygiedig ar waith?**

Cafwyd cyfanswm o 33 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, fel a ganlyn:

| Ateb | Canran | Nifer |
|---|---|---|
| Oes | 54.55% | 18 |
| Nac oes | 27.27% | 9 |
| Ddim yn berthnasol | 15.15%% | 5 |
| Dim ond sylwadau a ddarparwyd | 3.03% | 1 |

Allan o gyfanswm o 33 o ymatebwyr, cyflwynodd 23 ohonynt sylwadau mewn perthynas â'r cwestiwn hwn. Rhoddodd yr ymatebwyr amrywiaeth eang o adborth manwl, gan gynnig sylwadau gwerthfawr pa bynnag ateb a roddwyd i'r cwestiwn, gyda 54.55% yn nodi rhwystrau a heriau posibl wrth roi'r rheoliadau diwygiedig ar waith.

Roedd y prif rwystrau a'r heriau a nodwyd gan ymatebwyr yn ymwneud yn bennaf ag ymgysylltu â rhanddeiliaid a chasglu data. Ceir crynodeb o'r canfyddiadau gan y rheini a gyflwynodd sylwadau, wedi'u trefnu yn ôl thema, isod:

Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

- Roedd rhai ymatebwyr o'r farn bod arolygon mynych yn diflasu pobl ac yn eu hatal rhag ymgysylltu, a bod casglu cyfraniadau ystyrlon gan grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn her barhaus o hyd. Teimlwyd bod ehangu'r grwpiau ymgynghori gofynnol yn ychwanegu at faich Awdurdodau Lleol – yn enwedig gan nad oeddent bob amser yn arwain at fanteision cymesur. Gwnaethant nodi fod rhai grwpiau yn anodd i'w cyrraedd o hyd er gwaethaf yr ymdrechion gorau (30% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (7)).

Casglu data

- Nododd rhai ymatebwyr ddiffyg eglurder o ran pa ddata roedd disgwyl i Awdurdodau Lleol eu casglu, yn enwedig mewn perthynas â darpariaeth gofal plant anghofrestredig a capasiti darparwyr mewn perthynas â Chredyd Cynhwysol (22% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (5)).
- Roedd rhai ymatebwyr o'r farn ei bod hi'n anodd casglu data cynhwysfawr ar gyfer yr ADGP, gan nodi pryderon ynghylch cywirdeb a hygyrchedd y data sydd ar gael, yn enwedig i blant ag anghenion ychwanegol neu anableddau. Soniodd ymatebwyr fod y galw yn amrywio, gan ei gwneud hi'n anodd dadansoddi'r cyflenwad a'r galw, a nodwyd ganddynt fod rhagolygon o'r boblogaeth yn aml yn dyddio'n gyflym oherwydd mudo a demograffeg newidiol (17% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (4)).
- Awgrymwyd y dylai Llywodraeth Cymru ddarparu setiau data ar lefel genedlaethol, dangosyddion procsi a chymorth dadansoddol er mwyn sicrhau tegwch ar draws Awdurdodau Lleol. Gwnaethant gynnig ffurflenni symlach ar adegau allweddol (e.e., archwiliadau ymwelwyr iechyd a diwedd hawliau Dechrau'n Deg) ac arolygon symlach, mwy strategol i rieni er mwyn gwella ansawdd data a nodi anghenion gofal plant yn gynnar (9% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (2)).
- Nododd un ymatebydd fod angen rhagor o fanylion wrth asesu'r galw gan deuluoedd sy'n magu plant anabl, gan nodi y dylai'r canllawiau gynnwys enghreifftiau clir o ofal plant cynhwysol a dangosyddion procsi ar gyfer y galw (4% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau).
- Mynegodd un ymatebydd bryder nad oedd gan Awdurdodau Lleol, yn enwedig yr awdurdodau llai, y capasiti a'r adnoddau dadansoddi i brosesu a dehongli'r data sydd eu hangen fel rhan o broses yr ADGP. Nododd un ymatebydd fod cyfyngiadau amser, capasiti staff a phwysau cyllid yn ffactorau

sylweddol a oedd yn atal y broses rhag gweithredu'n effeithiol (4% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau).

Yn gyffredinol, roedd ymatebwyr yn fodlon ar y cyfan ar y rheoliadau diwygiedig, gan gydnabod eu heffeithiolrwydd ond gan hefyd nodi meysydd i'w hystyried ymhellach. Gwnaethant bwysleisio pwysigrwydd mireinio'r canllawiau a rhoi cymorth ychwanegol er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu mewn ffordd gyson a chadarn ar draws Awdurdodau Lleol, a gaiff ei ystyried ymhellach gan Weithgor yr ADGP.

**Cwestiwn 17: A yw'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft yn crynhoi canlyniadau posibl y diwygiadau arfaethedig i'r Rheoliadau?**

Cafwyd cyfanswm o 33 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, fel a ganlyn:

| Ateb | Canran | Nifer |
|---|---|---|
| Ydy | 58% | 19 |
| Nac ydy | 27% | 9 |
| Ddim yn berthnasol | 15% | 5 |

Allan o 33 o ymatebwyr, cyflwynodd 22 o ymatebwyr sylwadau mewn perthynas â'r cwestiwn hwn.

Roedd dros hanner yr ymatebwyr yn cytuno bod yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft yn crynhoi canlyniadau posibl y rheoliadau diwygiedig (58% o'r ymatebwyr (19)), ond nid oedd 27% o'r ymatebwyr (9) yn cytuno. Rhoddodd yr ymatebwyr amrywiaeth eang o adborth manwl, gan gynnig sylwadau gwerthfawr pa bynnag ateb a roddwyd i'r cwestiwn. Ceir crynodeb o rai o'r canfyddiadau allweddol gan y rheini a gyflwynodd sylwadau isod:

- Nododd ymatebwyr mai bwriad y newidiadau arfaethedig oedd lleihau'r baich gweinyddol sy'n gysylltiedig ag asesu'r cyflenwad gofal plant a'r galw amdano, ond roeddent yn teimlo nad oedd unrhyw arwydd clir o ran sut y byddai'r gostyngiad hwn yn cael ei gyflawni'n ymarferol (41% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (9)).
- Nododd ymatebwyr, er bod y newidiadau arfaethedig yn anelu at symleiddio proses yr ADGP, ei bod hi'n ymddangos bod proses ddiwygiedig yr ADGP yn gofyn am wybodaeth fanylach neu wybodaeth yr un mor fanwl â'r hyn a gesglir ar hyn o bryd, gyda rhai yn nodi y byddai cynnydd o ran llwyth gwaith

yn sgil gofynion ychwanegol (fel y gofyniad i ymgysylltu â grŵp ehangach o randdeiliaid a chyflwyno cyfarfodydd monitro blynyddol ), ynghyd â mwy o gynnwys naratif. Gofynnwyd am fwy o ymgysylltu a Chanllawiau Statudol cliriach cyn y gellid deall goblygiadau llawn y diwygiadau arfaethedig (18% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (4)).

- Cyfeiriodd ymatebwyr at blant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Nodwyd er bod yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft yn cydnabod cymhlethdod asesu'r galw ar gyfer plant ag anghenion sy'n dod i'r amlwg/Anghenion Dysgu Ychwanegol, nad oedd yn mynd yn ddigon pell wrth adlewyrchu profiadau bywyd teuluoedd, yn enwedig mewn perthynas â heriau ariannol a heriau o ran hygyrchedd. Nodwyd hefyd fod data ar blant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn anodd i'w casglu (14% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (3)).
- Cyfeiriodd ymatebwyr at adnoddau ac roeddent o'r farn y dylid ystyried capasiti staff a chyllidebau, yn enwedig mewn perthynas â chostau cyfieithu a'r angen i sicrhau cyllid ar draws blynyddoedd ariannol (14% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (3)).

Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr a gyflwynodd sylwadau yn cydnabod mai nod y newidiadau arfaethedig oedd lleihau'r baich gweinyddol, ond nid yn teimlo nad oedd yn glir sut y byddai hyn yn cael ei gyflawni. Nododd llawer o'r rheini a gyflwynodd sylwadau y gallai'r broses newydd gynyddu'r llwyth gwaith oherwydd gofynion ychwanegol, fel y gofyniad i ymgysylltu'n ehangach â rhanddeiliaid ac i gyflwyno cyfarfodydd monitro blynyddol. Gofynnwyd am Ganllawiau Statudol cliriach, mwy o ymgynghori, a mynegwyd pryderon ynghylch y prosesau casglu data ar gyfer plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r angen am adnoddau digonol, yn enwedig o ran staffio, cyfieithu, a chyllid amlflwydd.

**Cwestiwn 18: A yw'r Asesiad Effaith Integredig drafft yn cwmpasu'r effaith ar blant, teuluoedd, y rhai sy'n byw dan anfantais economaidd-gymdeithasol a phobl sydd â nodweddion gwarchodedig yn ddigonol yn eich barn chi (gan gynnwys tystiolaeth y dylid ei hystyried yn eich barn chi)? (Y nodweddion gwarchodedig yw: Oedran; Anabledd; Ailbennu rhywedd; Priodas a phartneriaeth sifil; Hil; Crefydd neu gred; Rhyw; a Chyfeiriadedd rhywiol)?**

Cafwyd cyfanswm o 33 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, fel a ganlyn:

| Ateb | Canran | Nifer |
|---|---|---|
| Ydy | 58% | 19 |
| Nac ydy | 27% | 9 |
| Ddim yn berthnasol | 15% | 5 |

Allan o gyfanswm o 33 o ymatebwyr, cyflwynodd 17 o ymatebwyr sylwadau mewn perthynas â'r cwestiwn hwn.  Rhoddodd yr ymatebwyr amrywiaeth eang o adborth manwl, gan gynnig sylwadau gwerthfawr pa bynnag ateb a roddwyd i'r cwestiwn.

Roedd ychydig dros hanner yr ymatebwyr (58% o'r ymatebwyr (19)) yn cytuno bod yr Asesiad Effaith Integredig drafft yn cwmpasu'r effaith ar blant, teuluoedd, y rhai sy'n byw dan anfantais economaidd-gymdeithasol a phobl sydd â nodweddion gwarchodedig yn ddigonol. Ond roedd lleiafrif o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (27% o'r ymatebwyr (9)) yn anghytuno bod yr asesiad drafft hwnnw yn cwmpasu'r effaith ar blant, teuluoedd, y rhai sy'n byw dan anfantais economaidd-gymdeithasol a phobl sydd â nodweddion gwarchodedig yn ddigonol.  Ceir crynodeb o rai o'r canfyddiadau allweddol gan y rheini a gyflwynodd sylwadau isod:

- Roedd ymatebwyr yn teimlo bod angen rhoi ystyriaeth fanylach i'r holl nodweddion gwarchodedig, yn enwedig hil, anabledd, iaith, a beichiogrwydd a mamolaeth, fel y'u nodir yn Neddf Cydraddoldeb Cymru (35% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (6)).
- Roedd ymatebwyr o'r farn y gellid gwella'r Asesiad Effaith Integredig drafft er mwyn ymdrin â'r effaith ar blant anabl a'r rheini ag anghenion sy'n dod i'r amlwg/Anghenion Dysgu Ychwanegol, yn enwedig o ran ansawdd, addasrwydd a chysondeb y ddarpariaeth gofal plant. Nododd adborth er bod sôn am hygyrchedd, nad oedd tystiolaeth fanwl na chamau gweithredu clir i ddangos cymorth i'r teuluoedd yr effeithir arnynt (18% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (3)).
- Roedd rhai ymatebwyr o'r farn bod yr asesiad yn canolbwyntio mwy ar gyfrifoldebau a chamau gweithredu Awdurdodau Lleol yn hytrach na'r effaith uniongyrchol ar blant a theuluoedd unigol. Teimlwyd hefyd fod angen i'r asesiad adlewyrchu'r ffaith y gallai symud ac adleoli'n aml darfu ar barhad a mynediad at ofal plant a chymorth i deuluoedd (18% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (3)).
- Roedd un ymatebydd o'r farn bod angen ffocws cliriach ar sicrhau lleoliadau gofal plant digonol i deuluoedd sy'n gweithio a'r rheini sy'n ymuno â'r gweithlu (6% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau).
- Awgrymodd un ymatebydd y dylai'r asesiad fonitro cynnydd ac effaith (6% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau). Awgrymodd ymatebydd arall y dylid ymgorffori'r canfyddiadau o'r arolygon i rieni a'r grwpiau ffocws, ac y dylid dadansoddi nifer y bobl sy'n manteisio ar ofal plant wedi'i ariannu yn ôl ethnigrwydd neu statws anabledd (6% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau).
- Nododd un ymatebydd y dylai'r Asesiad Effaith Integredig ystyried yr anawsterau y mae teuluoedd sy'n byw dan anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu hwynebu, gan gynnwys rhwystrau i ymgysylltu oherwydd

holiaduron hir sy'n llawn jargon, a diffyg gwybodaeth am yr opsiynau o ran gofal plant (6% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau).

- Roedd un ymatebydd o'r farn, er bod cyfeiriad at ymgynghori â grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol (gan gynnwys Mentoriaid Cymunedol), fod angen esboniad pellach o sut y byddai eu hadborth yn cael ei ddefnyddio i sicrhau bod yr ADGP yn fwy cynhwysol ac i wella prosesau casglu data ledled Cymru (6% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau).

Yn gyffredinol, roedd ymatebwyr yn cytuno bod yr asesiad drafft yn ddigonol ond gan bwysleisio fod angen ystyried yr holl nodweddion gwarchodedig ymhellach, yn enwedig y rheini a amlinellir yn Neddf Cydraddoldeb Cymru. Gwnaethant ofyn am dystiolaeth a chamau gweithredu cliriach i blant anabl a'r rheini ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, mwy o ffocws ar yr effeithiau uniongyrchol ar deuluoedd, ymdrechion i ystyried effaith achosion o darfu yn sgil adleoli, gwell trefniadau monitro, gwell gwybodaeth i deuluoedd dan anfantais, a dull gweithredu mwy cynhwysol mewn perthynas ag ymgynghori a chasglu data.

**Cwestiwn 19: Sut y gellir llunio neu ddiwygio'r newidiadau arfaethedig i'r Rheoliadau fel na fyddent yn cael effeithiau andwyol, neu fel y byddent yn cael llai o effeithiau andwyol ar bobl â nodweddion gwarchodedig?**

Atebodd cyfanswm o 25 o ymatebwyr y cwestiwn hwn. Gwnaed yr awgrymiadau canlynol er mwyn sicrhau na fyddai'r rheoliadau yn cael effeithiau andwyol, neu y byddent yn cael llai o effeithiau andwyol ar bobl â nodweddion gwarchodedig:

- Tynnodd ymatebwyr sylw at bwysigrwydd ymgynghori'n uniongyrchol â phobl a theuluoedd â nodweddion gwarchodedig, er enghraifft drwy grwpiau ffocws, cyfarfodydd wyneb yn wyneb, a threfniadau cydweithio â sefydliadau cymunedol cynrychioliadol (24% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (6)).
- Nododd ymatebwyr fod angen atgyfnerthu iaith gynhwysol ac egluro y dylai darpariaeth gofal plant fod yn hygyrch, wedi'i theilwra, ac yn gynhwysol i blant ag anableddau, gan gynnwys y rheini y mae angen gofal cymhleth neu arbenigol arnynt (20% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (5)).
- Roedd ymatebwyr yn awyddus i wella hygyrchedd arolygon a phrosesau casglu gwybodaeth, er enghraifft sicrhau eu bod yn cydweddu â dyfeisiau a ddelir â llaw a rhoi cymorth mewn gwahanol ieithoedd a fformatau hygyrch, ynghyd â chais am 'becyn cymorth' o ddulliau ar gyfer ymgysylltu â grwpiau gwarchodedig (12% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (3)).
- Roedd ymatebwyr yn teimlo bod angen cydnabod y rhwystrau ychwanegol y mae teuluoedd yn eu hwynebu, fel diffyg staff hyfforddedig, anawsterau o ran

trafnidiaeth, allgáu digidol, ac oriau gofal plant anhyblyg i rieni â phatrymau gwaith afreolaidd. Argymhellwyd y dylid cynnal archwiliadau hygyrchedd corfforol a synhwyraidd o leoliadau gofal plant, gan gyflwyno adroddiadau ar yr addasiadau rhesymol sy'n ofynnol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (8% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (2)).

- Awgrymodd ymatebwyr y dylid defnyddio dangosyddion procsi, gwaith monitro ac adolygu rheolaidd, a chydgysylltu â thimau lleol sy'n helpu pobl â nodweddion gwarchodedig (8% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (2)).
- Roedd un ymatebydd o'r farn y dylid cynnal asesiad i gadarnhau a yw'r systemau cymorth ariannol presennol yn diwallu anghenion teuluoedd â phlant anabl ac i argymell cymorth ychwanegol lle byddai diffygion yn cael eu nodi. Roedd yn teimlo hefyd bod angen cyflwyno adroddiadau blynyddol a system oruchwyliaeth annibynnol er mwyn sicrhau yr ymdrinnir ag anghenion heb eu diwallu ac i hyrwyddo tryloywder ac atebolrwydd (4% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau).

**Cwestiwn 20: A oes unrhyw agweddau ar y Canllawiau Statudol cyfredol sy'n aneglur ar hyn o bryd yn eich barn chi?**

Cafwyd cyfanswm o 32 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, fel a ganlyn:

| Ateb | Canran | Nifer |
|---|---|---|
| Oes | 53% | 17 |
| Nac oes | 41% | 13 |
| Ddim yn berthnasol | 6% | 2 |

Allan o gyfanswm o 32 o ymatebwyr, cyflwynodd 19 o ymatebwyr sylwadau mewn perthynas â'r cwestiwn hwn. Rhoddodd yr ymatebwyr amrywiaeth eang o adborth manwl, gan gynnig sylwadau gwerthfawr pa bynnag ateb a roddwyd i'r cwestiwn.

Roedd ychydig dros hanner yr ymatebwyr (53% o'r ymatebwyr (17)) o'r farn bod angen egluro rhai agweddau penodol ar y Canllawiau Statudol cyfredol yn well. Ond nid oedd ychydig llai na hanner (41% o'r ymatebwyr (13)) o'r farn bod unrhyw agweddau ar y Canllawiau Statudol cyfredol yn aneglur ar hyn o bryd. Mae rhai o'r canfyddiadau gan y rheini a gyflwynodd sylwadau yn cynnwys y canlynol:

- Roedd ymatebwyr yn teimlo bod angen canllawiau cliriach a mwy rhagnodol a thempledi safonedig, yn ogystal â mesurau procsi ar gyfer casglu data, er

mwyn sicrhau prosesau gweithredu cyson ar draws Awdurdodau Lleol (74% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (14)).

- Soniodd ymatebwyr fod angen diweddaru'r derminoleg yn y Canllawiau Statudol, gan gynnwys categorïau Cymraeg cyson, ac ychwanegu rhestr termau i esbonio'r gwahanol fathau o ofal plant, gan gynnwys templedi safonedig y gellid eu haddasu i ystyried nodweddion lleol (15% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (3)).
- Roedd ymatebwyr yn awyddus i'r Canllawiau Statudol nodi eu diben. Teimlwyd bod dryswch ynghylch cynulleidfa fwriadedig yr ADGP, a gofyn am eglurhad o ran a yw'r ffocws ar rieni sy'n gweithio, rhieni mewn addysg neu hyfforddiant, neu bob rhiant, gan gynnwys y rheini sy'n cael eu cefnogi gan raglenni penodol (11% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (2)).
- Roedd un ymatebydd yn awyddus i'r Canllawiau Statudol cyfredol a'u hatodlenni cysylltiedig gael eu hadolygu mewn partneriaeth â rhanddeiliaid er mwyn sicrhau bod eu diben, eu perthnasedd a'u hyd yn briodol a'u bod yn nodi'r wybodaeth angenrheidiol i gefnogi'r ADGP (5% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau).
- Roedd un ymatebydd o'r farn bod risg y gallai'r ADGP ddod yn rhy gymhleth ac y gallai gael ei anelu at ormod o gynulleidfaoedd, gan ofyn am ganllawiau symlach (5% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau).
- Gofynnodd un ymatebydd am ragor o wybodaeth am y gofynion o ran dosbarthiad daearyddol (megis pa ardaloedd ystadegol i'w defnyddio) (5% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau). Ac roedd un ymatebydd o'r farn y dylai'r Canllawiau Statudol ystyried prosesau cynllunio ar gyfer cymunedau y mae eu hamgylchiadau yn newid yn gyflym, fel teuluoedd yn y lluoedd arfog (5% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau).
- Roedd un ymatebydd o'r farn bod diffyg canllawiau ar ymgorffori gofal anffurfiol neu anghofrestredig ac ar gynnwys safbwyntiau grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, fel teuluoedd ethnig leiafrifol neu blant ag anghenion sy'n dod i'r amlwg/Anghenion Dysgu Ychwanegol, mewn ffordd systematig (5% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau).
- Mynegodd un ymatebydd ansicrwydd ynghylch gwerth casglu data ar ddarpariaeth gofal plant anghofrestredig, gan nodi nad oes gan Awdurdodau Lleol lawer o ddylanwad dros ddarparwyr preifat, darparwyr annibynnol a darparwyr yn y sector gwirfoddol, yn enwedig o ran lleihau'r rhwystrau i unigolion â nodweddion gwarchodedig (5% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau).

Yn gyffredinol, tynnodd ymatebwyr sylw at yr angen am ganllawiau cliriach, mwy rhagnodol, templedi safonedig, a mesurau procsi ar gyfer casglu data er mwyn sicrhau bod yr ADGP yn cael ei weithredu mewn ffordd gyson ar draws Awdurdodau Lleol. Cafwyd ceisiadau i adolygu a diweddaru'r Canllawiau Statudol, gan gynnwys

eu diben, eu perthnasedd, y derminoleg a'r atodlenni cysylltiedig, ar y cyd â rhanddeiliaid er mwyn cefnogi'r ADGP yn well ac egluro ei gynulleidfa fwriadedig. Mynegodd rhai ymatebwyr ansicrwydd ynghylch gwerth casglu data ar ofal plant anghofrestredig, o ystyried nad oes gan Awdurdodau Lleol lawer o ddylanwad dros ddarparwyr preifat ba gwirfoddol, yn enwedig mewn perthynas â chefnogi unigolion â nodweddion gwarchodedig. Roedd yr awgrymiadau hefyd yn cynnwys y canlynol: diweddaru'r categorïau Cymraeg; ychwanegu rhestr termau; darparu rhagor o fanylion am y gofynion o ran dosbarthiad daearyddol; a sicrhau bod y canllawiau yn ymdrin ag anghenion cymunedau sy'n newid yn gyflym a grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, gan gynnwys teuluoedd ethnig leiafrifol a phlant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol.

**Cwestiwn 21: A fyddai canllawiau cliriach ar ddarparwyr anghofrestredig yn gwella prosesau casglu data yn eich barn chi?**

Cafwyd cyfanswm o 34 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, fel a ganlyn:

| Ateb | Canran | Nifer |
|---|---|---|
| Byddai | 73.53% | 25 |
| Na fyddai | 17.65% | 6 |
| Ddim yn berthnasol | 8.82% | 3 |

Allan o gyfanswm o 34 o ymatebwyr, cyflwynodd 29 ohonynt sylwadau mewn perthynas â'r cwestiwn hwn.  Rhoddodd yr ymatebwyr amrywiaeth eang o adborth manwl, gan gynnig sylwadau gwerthfawr a fydd yn ddefnyddiol wrth helpu i roi'r rheoliadau ar waith.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno bod angen canllawiau cenedlaethol cliriach a mwy cyson i ddiffinio darpariaeth anghofrestredig, safoni prosesau casglu data, a gwella trefniadau ymgysylltu. Roeddent yn teimlo y byddai hyn yn helpu Awdurdodau Lleol i ddeall y tirlun gofal plant llawn, i nodi anghenion cymorth a hyfforddiant yn well ac i sicrhau asesiadau digonolrwydd mwy cywir (74% o'r ymatebwyr (25)). Ceir crynodeb o rai o'r canfyddiadau allweddol gan y rheini a gyflwynodd sylwadau isod:

- Nododd ymatebwyr fod darpariaeth anghofrestredig, yn enwedig gofal ar ôl ysgol a threfniadau anffurfiol, yn chwarae rhan allweddol wrth ddiwallu anghenion rhieni sy'n gweithio, cymunedau gwledig ac ardaloedd difreintiedig (28% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (8)).

- Tynnodd ymatebwyr sylw at y ffaith bod darparwyr gofal plant anghofrestredig yn anodd i'w nodi a'u cyrraedd, gan arwain at ddata anghyflawn a dull adrodd tameidiog ar draws Awdurdodau Lleol, yn enwedig gan nad oedd unrhyw rwymedigaeth ar hyn o bryd ar ddarparwyr anghofrestredig i ymgysylltu â Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd nac Awdurdodau Lleol (24% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (7)).

Yn gyffredinol, nodwyd pwysigrwydd casglu gwybodaeth am ddarpariaeth anghofrestredig er mwyn gallu asesu'r farchnad gofal plant mewn ffordd fwy cynhwysfawr. Fodd bynnag, nodwyd yr anawsterau sy'n gysylltiedig â chasglu'r wybodaeth hon ac roedd galw cryf am ganllawiau cliriach i ddiffinio darpariaeth anghofrestredig yn unol â chanlyniadau'r ymgynghoriad ar y Gorchymyn Eithriadau.

**Cwestiwn 22: Pa fathau o ddarpariaeth gofal plant anghofrestredig ddylai gael eu cynnwys yn yr ADGP yn eich barn chi?**

Atebodd cyfanswm o 30 o ymatebwyr y cwestiwn hwn. Ceir crynodeb o rai o'r canfyddiadau allweddol isod:

- Pwysleisiodd ymatebwyr y dylid cynnwys darpariaeth gofal plant anghofrestredig yn yr ADGP er mwyn sicrhau darlun mwy cyflawn o'r gofal plant sydd ar gael a helpu i fonitro diogelwch plant a safonau ansawdd. Fodd bynnag, cydnabu llawer ohonynt yr heriau sy'n gysylltiedig â chasglu data cywir ar ofal anffurfiol neu anghofrestredig (70% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (21)).
- Nododd ymatebwyr fod llawer o rieni yn dibynnu ar ddarpariaeth gofal plant anghofrestredig, fel clybiau brecwast yn yr ysgol, clybiau ar ôl ysgol sy'n gweithredu am gyfnod o lai na dwy awr, cynlluniau chwarae, a'r Rhaglen Gwella Gwyliau'r Haf, yn enwedig i lenwi bylchau yn ystod y gwyliau (23% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (7)).
- Roedd ymatebwyr yn teimlo mai dim ond darpariaeth gofrestredig y dylid ei chynnwys yn yr ADGP gan ei fod yn fwy cadarn i'w holrhain ac roedd un ymatebydd (3%) o'r farn y dylai Awdurdodau Lleol allu dewis cynnwys gwybodaeth am y defnydd lleol o ofal plant anghofrestredig yn benodol ar gyfer eu hardal, gan fyfyrio ar wybodaeth leol, gan gynnwys gofal anffurfiol gan deulu, ffrindiau, neu nanis, a threfniadau eraill sydd wedi'u heithrio o dan y Gorchymyn Eithriadau (17% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (5)).
- Cydnabu un ymatebydd nad prif ddiben rhai mathau o ddarpariaeth, fel clybiau chwaraeon neu gynlluniau chwarae mynediad agored, yw darparu

gofal plant ac felly na ddylid o reidrwydd eu cynnwys yn yr ADGP (3% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau).

**Cwestiwn 23: A yw'r Canllawiau Statudol cyfredol yn caniatáu i ddata gael eu rhannu'n briodol ac yn ddienw yn eich barn chi (h.y. rhannu data'r Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth gan Arolygiaeth Gofal Cymru)?**

Cafwyd cyfanswm o 33 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, fel a ganlyn:

| Ateb | Canran | Nifer |
|---|---|---|
| Ydyn | 45.45% | 15 |
| Nac ydyn | 33.33% | 11 |
| Ddim yn berthnasol | 21.21% | 7 |

Allan o gyfanswm o 33 o ymatebwyr, cyflwynodd 22 ohonynt sylwadau mewn perthynas â'r cwestiwn hwn. Rhoddodd yr ymatebwyr amrywiaeth eang o adborth manwl, gan gynnig sylwadau gwerthfawr pa bynnag ateb a roddwyd i'r cwestiwn.

Roedd llawer o'r ymatebwyr (45.45% o'r ymatebwyr (15)) yn cytuno bod y Canllawiau Statudol cyfredol yn caniatáu i ddata gael eu rhannu'n briodol ac yn ddienw, ond nid oedd lleiafrif o'r ymatebwyr yn cytuno (33.33% o'r ymatebwyr (11)). Ceir crynodeb o rai o'r canfyddiadau allweddol gan y rheini a gyflwynodd sylwadau isod:

- Ystyriwyd bod y canllawiau yn cefnogi prosesau ar gyfer rhannu data yn ddienw, ond roedd ymatebwyr yn amau a oedd data o'r fath yn ddefnyddiol o gymharu â data a oedd yn enwi darparwyr gwasanaethau (41% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (9)).
- Nododd ymatebwyr fod data a rannwyd yn y gorffennol o Ddatganiadau Hunanasesu Gwasanaeth wedi helpu i ryw raddau, ond eu bod yn aml yn cynnwys bylchau ac anghywirdebau, fel gwallau wrth gyfrifo neu gategorïau iaith anghywir. Roedd ymatebwyr o'r farn bod data dienw yn anodd i'w dehongli ac yn ei gwneud hi'n anodd nodi pa leoliadau nad oeddent wedi ymateb a pha fylchau oedd yn bodoli o ran gwasanaethau ar draws siroedd (55% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (12)).
- Nododd ymatebwyr fod y Canllawiau Statudol a'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Arolygiaeth Gofal Cymru ac Awdurdodau Lleol yn caniatáu i ddata gael eu rhannu'n ddienw, ond gwnaethant awgrymu protocol cenedlaethol safonedig ar gyfer rhannu data a fformatau haws i'w defnyddio

(fel taenlenni neu ddangosfyrddau) er mwyn gwella defnyddioldeb a chysondeb (45% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (10)).

- Soniodd ymatebwyr am achosion o ddyblygu trefniadau casglu data a'r baich gweinyddol ar staff, o ystyried bod Llywodraeth Cymru eisoes yn casglu symiau sylweddol o wybodaeth (9% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (2)). Gofynnwyd am ganllawiau cliriach o ran pa setiau data y dylid eu defnyddio (18% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (4)).

Yn gyffredinol, er bod ymatebwyr o'r farn bod y Canllawiau Statudol cyfredol yn caniatáu i ddata gael eu rhannu'n briodol ac yn ddienw, cafwyd ceisiadau cryf i sicrhau bod modd adnabod data Datganiadau Hunanasesu Gwasanaeth ar lefel darparwr gan fod data dienw yn atal Awdurdodau Lleol rhag gallu cymryd camau dilynol gyda lleoliadau unigol i ddilysu neu gywiro anghywirdebau, sy'n cyfyngu ar eu gallu i wella cyflwyniadau yn y dyfodol ac i groesgyfeirio â setiau data eraill. Awgrymwyd y gallai Awdurdodau Lleol ddileu enwau o'r data wrth adrodd ar y data hynny yn eu ADGP.

**Cwestiwn 24: A fydd y newidiadau arfaethedig i'r Rheoliadau yn helpu Awdurdodau Lleol i asesu gofal plant digonol ar gyfer plant ag Angen Dysgu Ychwanegol (ADY) a/neu anabledd yn eich barn chi?**

Cafwyd cyfanswm o 34 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, fel a ganlyn:

| Ateb | Canran | Nifer |
|---|---|---|
| Byddant | 50% | 17 |
| Na fyddant | 35% | 12 |
| Ddim yn berthnasol | 9% | 3 |
| Dim ond sylwadau a ddarparwyd | 6% | 2 |

Allan o gyfanswm o 34 o ymatebwyr, darparodd 24 amrywiaeth eang o adborth manwl, gan gynnig sylwadau gwerthfawr pa bynnag ateb a roddwyd i'r cwestiwn.

Er bod hanner yr ymatebwyr (50% o'r ymatebwyr (17)) yn cytuno y bydd y newidiadau arfaethedig i'r rheoliadau yn helpu Awdurdodau Lleol i asesu gofal plant digonol ar gyfer plant ag Angen Dysgu Ychwanegol (ADY) a/neu anabledd, nid oedd lleiafrif (35% o'r ymatebwyr (12)) yn credu bod hynny'n wir. Ceir crynodeb o rai o'r canfyddiadau allweddol gan y rheini a gyflwynodd sylwadau isod:

- Nododd ymatebwyr fod yr ystod o anghenion sy'n dod i'r amlwg/Anghenion Dysgu Ychwanegol yn eang ac na allai pob gwarchodwr plant neu ddarparwr gofal plant warantu cymorth i bob plentyn ag anghenion arbenigol gan y byddai'n dibynnu ar lefel angen y plentyn, yr adnoddau sydd ar gael, ac anghenion plant eraill sy'n cael gofal ganddynt (25% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (6)).
- Nododd ymatebwyr efallai na fydd plant ag anghenion sy'n dod i'r amlwg wedi cael cydnabyddiaeth ffurfiol ar gyfer yr anghenion hynny (fel Cynllun Datblygu Unigol) a bod y dulliau casglu data presennol o bosibl yn tangynrychioli'r galw gwirioneddol, yn enwedig gan mai dim ond ar ôl i blant ddechrau mynychu lleoliadau gofal plant y daw rhai anghenion i'r amlwg a'i bod hi'n anodd casglu data cadarn yn sgil dealltwriaeth anghyson o anghenion sy'n dod i'r amlwg/Anghenion Dysgu Ychwanegol (17% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (4)).
- Cododd un ymatebydd bryderon nad oedd y newidiadau arfaethedig i'r rheoliadau yn cydnabod ymdrechion darparwyr i addasu darpariaeth na'r newidiadau cyflym mewn anghenion unigol ddigon, gan awgrymu nad oedd cylch asesu bob pum mlynedd yn ddigon rheolaidd (4% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau).
- Gwnaeth un ymatebydd gais am iaith gynhwysol gryfach, trefniadau ymgysylltu gorfodol â theuluoedd plant anabl, prosesau ar gyfer casglu data wedi'u dadgyfuno, archwiliadau hygyrchedd, cydnabyddiaeth ar gyfer rhwystrau ychwanegol (fel staffio a thrafnidiaeth), ac asesiadau ariannu teg. Argymhellwyd adroddiadau blynyddol a phrosesau goruchwylio annibynnol er mwyn monitro cynnydd wrth ddiwallu anghenion plant ag anabledd/Angen Dysgu Ychwanegol (4% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau).
- Nododd un ymatebydd fod gwybodaeth leol a data byw, a gaiff eu casglu'n aml gan dimau fel Anghenion Ychwanegol y Blynyddoedd Cynnar neu Wasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd, yn cael eu hystyried yn fwy cywir nag ADGPau ar eu pen eu hunain (4% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau).
- Argymhellodd un ymatebydd y dylai'r ADGP gynnwys proses flynyddol i fonitro Anghenion Dysgu Ychwanegol, gwell cysondeb â'r Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol a thimau cynhwysiant, canllawiau cliriach ar ofal plant cynhwysol, a gwell prosesau ar gyfer rhannu data rhwng Llywodraeth Cymru a gwasanaethau Anghenion Dysgu Ychwanegol lleol (4% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau).

Yn gryno, roedd ymatebwyr o'r farn ei bod hi'n anodd casglu gwybodaeth mewn perthynas ag anghenion sy'n dod i'r amlwg, Anghenion Dysgu Ychwanegol a/neu anabledd. Teimlwyd hefyd ei bod hi'n anodd i ddarparwyr warantu cymorth i blant ag Angen Dysgu Ychwanegol/anabledd gan fod yr anghenion yn unigol i bob plentyn ac y gall amgylchiadau a gofynion pob plentyn amrywio'n sylweddol. Awgrymwyd y

gellid defnyddio ffynonellau gwybodaeth eraill a chanllawiau cliriach i helpu Awdurdodau Lleol i gasglu gwybodaeth am blant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol/anabledd.

**Cwestiwn 25: Pa gymorth fyddai'n ddefnyddiol i helpu Awdurdodau Lleol i ymgysylltu â chymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol (gan gynnwys Sipsiwn, Roma a Theithwyr)?**

Cyflwynodd cyfanswm o 30 o ymatebwyr sylwadau mewn perthynas â'r cwestiwn hwn. Rhoddodd yr ymatebwyr amrywiaeth eang o adborth manwl, gan gynnig sylwadau gwerthfawr a fydd yn ddefnyddiol wrth helpu i roi'r rheoliadau ar waith. Ceir crynodeb o rai o'r canfyddiadau allweddol isod:

- Nododd ymatebwyr y gallai Gofal Cymdeithasol Cymru a phartneriaid eraill, fel y sefydliad Dysgu Proffesiynol Amrywiaeth a Gwrth-hiliaeth (DARPL), helpu Awdurdodau Lleol i ddatblygu cysylltiadau â chymunedau ethnig leiafrifol. Awgrymwyd y gellid defnyddio rhwydweithiau a phartneriaethau sy'n bodoli eisoes, fel Swyddogion Cymorth i Deuluoedd a Swyddogion Cymunedol a chydweithwyr addysg, i gynyddu lefelau ymgysylltu a chyfranogi (33% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (10)).
- Pwysleisiodd ymatebwyr bwysigrwydd gwaith ymgysylltu sy'n sensitif i ofynion diwylliannol, gan gynnwys darparu gwybodaeth mewn ieithoedd gwahanol ac mewn fformatau hygyrch, a sicrhau bod y deunydd cyfathrebu yn glir ac yn ystyrlon. Cafwyd cais i ddefnyddio deunyddiau wedi'u cyfieithu, hawdd i'w darllen, a phwysleisiwyd yr angen i ymdrin â gwahaniaethau diwylliannol mewn arferion gofal plant (er enghraifft, darparu bwyd a'r drefn o ddydd i ddydd). Pwysleisiwyd hefyd y gallai ymdrechion i gyflogi staff o'r cymunedau targed wella prosesau casglu data ac ymddiriedaeth (33% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (10)).
- Tynnodd ymatebwyr sylw at werth Awdurdodau Lleol yn gweithio gyda sefydliadau'r trydydd sector, eiriolwyr cymunedol yr ymddiriedir ynddynt, a grwpiau cyfeirio arbenigol i gyrraedd cymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol (gan gynnwys Sipsiwn, Roma a Theithwyr) (20% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (6)).
- Nododd ymatebwyr y byddai angen hyfforddiant gwrth-hiliaeth a chymhwysedd diwylliannol ar staff Awdurdodau Lleol cyn iddynt allu ymgysylltu â'r cymunedau hyn mewn ffordd ystyrlon. Awgrymwyd y gellid defnyddio pecynnau cymorth ac adnoddau hyfforddiant, fel y rhai a ddatblygwyd gan DARPL a Cwlwm, i helpu staff a lleoliadau gofal plant i roi arferion gwrth-hiliol ar waith (17% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (5)).

- Awgrymodd ymatebwyr y byddai'n fuddiol i Awdurdodau Lleol rannu enghreifftiau o waith ymgysylltu llwyddiannus â chymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, ac o gymorth wedi'i dargedu, fel swyddogion cyswllt diwylliannol neu sefydliadau cenedlaethol yn hwyluso cyswllt â darparwyr lleol (13% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (4)).
- Nododd ymatebwyr fod niferoedd isel o aelodau grwpiau targed ac anawsterau wrth gysylltu â rhai cymunedau penodol (fel teuluoedd Teithwyr) yn achosi heriau parhaus o ran ymgysylltu. Nodwyd ganddynt fod y system gofal plant yn gymhleth i rieni o bob demograffeg, a bod angen gwneud mwy i symleiddio prosesau a deunyddiau cyfathrebu. Gwnaethant nodi hefyd fod meithrin ymddiriedaeth, rhoi amser i gydberthnasau ddatblygu, a thryloywder yn hanfodol er mwyn ymgysylltu'n llwyddiannus (10% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (3)).
- Nododd ymatebwyr fod niferoedd isel o aelodau grwpiau targed ac anawsterau wrth gysylltu â rhai cymunedau penodol (fel teuluoedd Teithwyr) yn achosi heriau parhaus o ran ymgysylltu (10% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (3)).
- Nododd ymatebwyr hefyd fod meithrin ymddiriedaeth, rhoi amser i gydberthnasau ddatblygu, a thryloywder yn hanfodol er mwyn ymgysylltu'n llwyddiannus (10% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (3)).
- Awgrymodd ymatebwyr y byddai'n fuddiol i Awdurdodau Lleol rannu enghreifftiau o waith ymgysylltu llwyddiannus â chymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, ac o gymorth wedi'i dargedu, fel swyddogion cyswllt diwylliannol neu sefydliadau cenedlaethol yn hwyluso cyswllt â darparwyr lleol (7% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (2)).
- Argymhellodd ymatebwyr y dylid ymgysylltu â phobl â phrofiad bywyd er mwyn sicrhau bod eu lleisiau yn dylanwadu ar y broses o gynllunio gofal plant a'r ddarpariaeth (7% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (2)).
- Roedd un ymatebydd o'r farn bod angen canllawiau clir ar Awdurdodau Lleol ar gasglu a defnyddio data am e4thnigrwydd a chefndiroedd diwylliannol mewn ffordd barchus ac ystyrlon (3% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau).
- Nododd un ymatebydd fod y system gofal plant yn gymhleth i rieni o bob demograffeg, a bod angen gwneud mwy i symleiddio prosesau a deunyddiau cyfathrebu (3% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau).

**Cwestiwn 26: Pa wybodaeth neu ddata sydd gan sefydliadau cynrychioliadol gofal plant a allai fod yn ddefnyddiol er mwyn bodloni gofynion Rheoliadol yr ADGP?**

Cyflwynodd cyfanswm o 29 o ymatebwyr sylwadau mewn perthynas â'r cwestiwn hwn. Rhoddodd yr ymatebwyr amrywiaeth eang o adborth manwl, gan gynnig sylwadau gwerthfawr a fydd yn ddefnyddiol wrth helpu i roi'r rheoliadau ar waith. Ceir crynodeb o rai o'r canfyddiadau allweddol isod:

- Nododd ymatebwyr fod sefydliadau cynrychioliadol gofal plant yn casglu gwybodaeth am dueddiadau yn y gweithlu yn rheolaidd, gan gynnwys nifer y staff sy'n ymgymryd â hyfforddiant, cymwysterau staff, heriau wrth recriwtio a chadw staff, pwysau newydd ar ddarparwyr, a phlant ag anghenion sy'n dod i'r amlwg/Anghenion Dysgu Ychwanegol. Cyfeiriodd un ymatebydd (3%) at arolwg peilot o weithlu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant gan Gofal Cymdeithasol Cymru a allai helpu Awdurdodau Lleol i fodloni gofynion rheoliadol (14% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (4)).
- Nododd ymatebwyr fod gan sefydliadau cynrychioliadol ddealltwriaeth gadarn o faterion sy'n effeithio ar y sector ac y gallent ddarparu gwybodaeth amserol am y sector, yn enwedig mewn perthynas â'u harbenigeddau (e.e., cyfrwng Cymraeg, gofal dydd llawn, neu leoliadau y tu allan i'r ysgol). Tynnwyd sylw at allu'r sefydliadau i gasglu data ansoddol, fel materion sy'n dod i'r amlwg, rhwystrau nad ymdrinnir â nhw mewn holiaduron safonol, a thystiolaeth anecdotaidd a allai fod yn ddefnyddiol ar gyfer yr ADGP (10% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (3)).
- Nododd ymatebwyr fod sefydliadau cynrychioliadol gofal plant fel arfer yn meddu ar wybodaeth debyg i'r wybodaeth a ddelir eisoes gan Awdurdodau Lleol neu Arolygiaeth Gofal Cymru neu sydd ar gael iddynt (7% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (2)).
- Nododd ymatebwyr mai dim ond data ar eu haelodau eu hunain yr oedd sefydliadau cynrychioliadol gofal plant yn eu cadw a bod aelodau yn darparu data o'u gwirfodd felly na fyddai'n darparu data llawn, gan arwain at setiau data anghyflawn. Nodwyd hefyd fod y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data yn cyfyngu ar y gallu i rannu rhai mathau o ddata ag Awdurdodau Lleol (7% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (2)).
- Nododd un ymatebydd fod sefydliadau cynrychioliadol gofal plant yn ddefnyddiol wrth helpu i ddosbarthu a chwblhau holiaduron, ac wrth annog darparwyr i gymryd rhan er mwyn gwella ansawdd data ar gyfer Awdurdodau Lleol (3% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau). Roedd ymatebydd arall o'r farn bod arolygon niferus a cheisiadau niferus am ddata yn arwain at achosion diangen o ddyblygu gwaith ac at faich gweinyddol i ddarparwyr ac Awdurdodau Lleol (3% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau).
- Gofynnodd un ymatebydd am ganllawiau cliriach gan Lywodraeth Cymru i gyrff cynrychioliadol gofal plant a chwarae cenedlaethol mewn perthynas â rhannu arferion a disgwyliadau (3% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau).

**Cwestiwn 27: Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r Adolygiad o Ddyletswydd Awdurdodau Lleol i gynnal Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant (ADGP) yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Pa effeithiau rydych chi'n credu y byddai? Sut y gellid gynyddu effeithiau positif a lliniaru effeithiau negyddol?**

Cyflwynodd cyfanswm o 21 o ymatebwyr sylwadau mewn perthynas â'r cwestiwn hwn. Rhoddodd yr ymatebwyr amrywiaeth eang o adborth manwl, gan gynnig sylwadau gwerthfawr a fydd yn ddefnyddiol wrth helpu i roi'r rheoliadau ar waith. Ceir crynodeb o rai o'r canfyddiadau allweddol isod:

- Argymhellodd lleiafrif o'r ymatebwyr ganllawiau cliriach ar fesur a chynllunio ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg, gwell cysondeb o ran y derminoleg, a chynnwys gwaith cynllunio ar gyfer y Gymraeg yn ystod pob cam o broses yr ADGP. Ystyriwyd bod trefniadau cydweithio â sefydliadau fel CWLWM a'r Mudiad Meithrin yn werthfawr o ran gwella ansawdd data, datblygu'r gweithlu, ac ymgysylltu â rhieni (24% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (5)).
- Roedd ymatebwyr o'r farn y byddai fframweithiau diwygiedig yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol asesu'r galw am ofal plant cyfrwng Cymraeg yn helpu i nodi anghenion heb eu diwallu ac yn cefnogi nodau Cymraeg 2050 (14% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (3)).
- Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at ddiffiniadau o'r Gymraeg. Codwyd pryderon ynghylch diffiniadau anghyson ac aneglur o leoliadau 'cyfrwng Cymraeg' a 'dwyieithog', a theimlwyd y gallai hynny arwain at ddryswch i ddarparwyr ac i rieni. Roeddent yn teimlo y byddai symleiddio'r categorïau iaith a'u cysoni â'r categorïau a ddefnyddir ym maes addysg yn gwella eglurder a chywirdeb adrodd (14% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (3)).
- Nododd ymatebwyr fod heriau o hyd wrth gofnodi'r galw am ofal plant cyfrwng Cymraeg yn gywir, gan deimlo bod y dulliau presennol yn aml yn tangofnodi'r diddordeb gwirioneddol oherwydd ymwybyddiaeth ac argaeledd cyfyngedig (10% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (2)).
- Roedd un ymatebydd o'r farn ei bod hi'n bwysig i blant sy'n siarad Cymraeg gael cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith ac yn credu y dylai pob lleoliad ddefnyddio rhywfaint o Gymraeg sylfaenol. Cydnabu mewn rhai rhannau o Gymru ei bod hi'n heriol darparu staff sy'n siarad Cymraeg neu annog plant i ddysgu Cymraeg o hyd gan fod nifer isel o siaradwyr yn yr ardal (5% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau).
- Roedd un ymatebydd o blaid sicrhau bod yr holl ddeunyddiau hyrwyddo a'r holl wybodaeth i ddarparwyr ar gael yn ddwyieithog, gan nodi y dylid eu cyfeirio at hyfforddiant Cymraeg a gweithio gyda chyrff cynrychioliadol gofal

plant a chwarae cenedlaethol i annog defnydd. Tynnodd sylw at fentrau sy'n mynd rhagddynt i uwchsgilio'r gweithlu a phwysigrwydd helpu staff presennol i ddatblygu sgiliau Cymraeg. Fodd bynnag, roedd un ymatebydd (5%) o'r farn bod y cyfyngiadau o ran adnoddau a phrinder staff sy'n siarad Cymraeg yn atal ymdrechion i ehangu gofal plant cyfrwng Cymraeg heb gymorth a chyllid ychwanegol (5% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau).

- Nododd un ymatebydd bryderon ynghylch lleoliadau sy'n gorddatgan eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg, weithiau dan ddylanwad pwysau allanol fel ffocws arolygu neu feini prawf cyllid. Teimlwyd bod yr iaith sy'n cael ei defnyddio gan adnoddau adrodd a chasglu data yn anghyson rhwng gwahanol sefydliadau. Nododd un ymatebydd fod angen prosesau monitro mwy cyson a thryloyw, gan gynnwys defnyddio mesurau procsi fel derbyniadau ysgol ac ymholiadau am wasanaethau (5% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau).

**Cwestiwn 28: Eglurwch hefyd os gwelwch yn dda sut rydych chi'n credu y gallai'r adolygiad arfaethedig gael ei lunio neu ei addasu er mwyn cael effeithiau positif neu fwy o effeithiau positif ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a pheidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

Cyflwynodd cyfanswm o 18 o ymatebwyr sylwadau mewn perthynas â'r cwestiwn hwn. Rhoddodd yr ymatebwyr amrywiaeth eang o adborth manwl, gan gynnig sylwadau gwerthfawr a fydd yn ddefnyddiol wrth helpu i roi'r rheoliadau ar waith. Ceir crynodeb o rai o'r canfyddiadau allweddol isod:

- Cyfeiriodd ymatebwyr at y gweithlu gofal plant. Nodwyd bod sector gofal plant cyfrwng Cymraeg cynaliadwy yn dibynnu ar weithlu medrus. Gwnaethant argymell y dylai Awdurdodau Lleol ddatblygu strategaethau recriwtio a chadw staff mewn partneriaeth â sefydliadau fel Mudiad Meithrin a darparwyr hyfforddiant. Awgrymwyd y gallai canllawiau hyrwyddo ymdrechion i ddatblygu'r gweithlu er mwyn ehangu'r capasiti cyfrwng Cymraeg (17% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (3)).
- Roedd un ymatebydd o'r farn bod angen i Awdurdodau Lleol ddarparu cymorth parhaus i leoliadau er mwyn iddynt ddeall pwysigrwydd defnyddio a hybu'r Gymraeg, a chynnig cyfleoedd i staff ddatblygu eu sgiliau Cymraeg ymhellach. Nodwyd pwysigrwydd annog y defnydd o'r Gymraeg wrth gyfathrebu â phlant a theuluoedd (6% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau).
- Nododd un ymatebydd fod fersiynau Cymraeg o ddogfennau weithiau'n defnyddio iaith fwy ffurfiol na'r dogfennau Saesneg cyfatebol, gan olygu eu bod yn anos i'w deall. Nododd ymatebwyr fod angen i ffurflenni ac arolygon i rieni ddefnyddio termau cyfarwydd, ac y dylai cyfieithiadau sicrhau llif cyson

sy'n hawdd ei ddeall yn y ddwy iaith, er mwyn atal defnyddwyr rhag troi at y fersiwn Saesneg (6% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau).

- Roedd un ymatebydd o'r farn na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg ym mhroses yr ADGP. Roedd hefyd am i Awdurdodau Lleol sicrhau bod deunyddiau cyfathrebu dwyieithog ar gael a bod gwasanaethau Cymraeg yr un mor amlwg, a thrwy hynny ddileu rhwystrau i deuluoedd sy'n siarad Cymraeg. Awgrymwyd y dylai'r canllawiau ei gwneud hi'n ofynnol i Awdurdodau Lleol fwrw ati mewn ffordd ragweithiol i hyrwyddo a chynllunio ar gyfer gofal plant cyfrwng Cymraeg, yn hytrach na dim ond ymateb i alw a fynegwyd. Teimlwyd y dylai Awdurdodau Lleol ragweld anghenion a chynllunio ar gyfer y ddarpariaeth yn y dyfodol, gan gynnwys mewn ardaloedd lle nad oes fawr ddim gofal plant cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd (6% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau).
- Nododd un ymatebydd anghysondeb rhwng y diffiniadau o'r Gymraeg a ddefnyddir ar gyfer gofal plant ac ysgolion, gan awgrymu y dylid egluro'r diffiniadau ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg a darpariaeth ddwyieithog a'u safoni ar draws yr ADGP, Arolygiaeth Gofal Cymru, ac addysg (6% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau).

**Cwestiwn 29: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny.**

Cyflwynodd cyfanswm o 9 o ymatebwyr sylwadau mewn perthynas â'r cwestiwn hwn. Rhoddodd yr ymatebwyr amrywiaeth eang o adborth manwl, gan gynnig sylwadau gwerthfawr a fydd yn ddefnyddiol wrth helpu i roi'r rheoliadau ar waith. Ceir crynodeb o rai o'r canfyddiadau allweddol isod:

- Cyfeiriodd ymatebwyr at blant ag anghenion sy'n dod i'r amlwg/Anghenion Dysgu Ychwanegol ac anableddau a nodwyd, er bod diwygiadau i broses yr ADGP yn helpu i fapio gwasanaethau i blant ag anghenion sy'n dod i'r amlwg/Anghenion Dysgu Ychwanegol ac anableddau, nad oeddent yn gwarantu gwell darpariaeth. Gofynnwyd am ganllawiau mwy penodol ar gynlluniau gweithredu. Gofynnwyd am fwy o ganllawiau i esbonio sut mae ADGPau yn hwyluso cyfnodau pontio esmwyth a theg o ofal plant i mewn i addysg gynnar, yn enwedig i ddysgwyr ag ADY a'r rheini sy'n defnyddio darpariaeth cyfrwng Cymraeg (22% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (2)).
- Cyfeiriodd ymatebwyr at gostau a oedd yn cynnwys cymorth wedi'i ariannu i helpu Awdurdodau Lleol i gwblhau'r ADGP a mesurau arbed costau, fel Llywodraeth Cymru yn dadansoddi data'r arolwg i rieni ac yn rhannu'r canfyddiadau â phob Awdurdod Lleol, a Llywodraeth Cymru yn dadansoddi ac

yn dosbarthu data Datganiadau Hunanasesu Gwasanaeth i Awdurdodau Lleol. Gwnaethant argymell templed byrrach â ffocws mwy penodol ar gyfer yr ADGP hefyd er mwyn lleihau costau cyfieithu ac adrodd, gyda'r arbedion hyn yn digwydd bob pum mlynedd (22% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (2)).

- Nododd un ymatebydd er bod yr ymgynghoriad ar yr ADGP yn pwysleisio'r angen i symleiddio'r asesiad a rhoi ffocws iddo, ei fod o'r farn nad oedd y rheoliadau diwygiedig drafft yn adlewyrchu'r blaenoriaethau hyn yn llawn. Mynegodd bryder y gallai fod angen adnoddau sylweddol ar gyfer y mesurau arfaethedig, fel gwneud mwy o ddefnydd o grwpiau ffocws a mapio'r ddarpariaeth gofal plant anghofrestredig. Awgrymwyd er y gallai darparu setiau data safonedig, mesurau procsi, a data glân o'r Datganiadau Hunanasesu Gwasanaeth leihau beichiau gweinyddol, nad oedd y camau gweithredu hyn ar eu pen eu hunain yn debygol o arwain at welliannau sylweddol i broses yr ADGP (11% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau).
- Cododd un ymatebydd bryderon ynghylch cynllunio'r gweithlu, yn enwedig pwysigrwydd sgiliau Cymraeg yn ystod y blynyddoedd cynnar ac mewn gofal plant. Tynnodd sylw at yr angen am gynlluniau hyfforddiant digonol, gan nodi y gallai ymdrechion gan Awdurdodau Lleol i ganoli addysg 14-19 a gostyngiad yn nifer y cyrsiau gofal plant cyfrwng Cymraeg effeithio ar allu'r sector i fodloni'r galw am staff dwyieithog cymwysedig (11% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau).
- Awgrymodd un ymatebydd fod angen rhoi ystyriaeth bellach i'r broses o gysylltu'r gwaith o gynllunio ar gyfer yr ADGP â deilliannau addysgol a mwy o bwyslais ar ddefnyddio tystiolaeth arolygu (fel Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru), gwell seilwaith digidol, a phrosesau cadarnach ar gyfer monitro cynhwysiant ac effaith camau gweithredu'r ADGP ar grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol (11% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau).

**Cwestiwn 30: Ydych chi'n byw yng Nghymru?**

Atebodd cyfanswm o 13 o ymatebwyr y cwestiwn hwn fel a ganlyn:

| Ateb | Canran | Nifer |
|---|---|---|
| Ydw | 92% | 12 |
| Nac ydw | 8% | 1 |

**Cwestiwn 31: A oes gennych fuddiant mewn busnes yng Nghymru?**

Atebodd cyfanswm o 10 o ymatebwyr y cwestiwn hwn fel a ganlyn:

| Ateb | Canran | Nifer |
|---|---|---|
| Oes | 30% | 3 |
| Nac oes | 70% | 7 |

## 4. Crynodeb o'r Ymatebion i'r Cwestiynau wedi'u Hanelu at Rieni/Gofalwyr

Cafwyd 22 o ymatebion i'r cwestiynau wedi'u hanelu at rieni/gofalwyr. Ni wnaeth pob ymatebydd ateb pob cwestiwn. Ceir crynodeb isod o'r ymatebion a gafwyd i'r cwestiynau a gyflwynwyd yn yr ymgynghoriad a'r canfyddiadau allweddol o'r sylwadau.

**Cwestiwn 1: A ydych wedi bod yn rhan o ddarparu adborth fel rhan o ymgynghoriad yr ADGP a gynhaliwyd gan eich Awdurdod Lleol?**

Atebodd pob un o'r 22 o ymatebwyr y cwestiwn hwn fel a ganlyn:

| Ateb | Canran | Nifer |
|---|---|---|
| Ydw | 9% | 2 |
| Nac ydw | 91% | 20 |

Nododd y mwyafrif (91% o'r ymatebwyr (20)) nad oeddent wedi bod yn rhan o ddarparu adborth fel rhan o ymgynghoriad yr ADGP a gynhaliwyd gan eu Hawdurdod Lleol yn flaenorol. Ond nid oedd lleiafrif (9% o'r ymatebwyr (2)) wedi bod yn rhan o ddarparu adborth fel rhan o ymgynghoriad yr ADGP yn flaenorol.

Allan o gyfanswm o 22 o ymatebion, cyflwynodd 6 ymatebydd sylwadau mewn perthynas â'r cwestiwn hwn. Ceir crynodeb o rai o'r canfyddiadau allweddol gan y rheini a gyflwynodd sylwadau isod:

- Roedd ymatebwyr wedi cael cais dros e-bost gan yr Awdurdod Lleol i gymryd rhan yn ymgynghoriad yr ADGP (33% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (2)).
- Nododd ymatebwyr nad oedd yr Awdurdod Lleol wedi cynnig cyfleoedd blaenorol i ymgysylltu neu i gymryd rhan mewn ymgyngoriadau gan nodi y byddai'n ddefnyddiol pe byddai cyfleoedd ymgynghori yn cael eu hysbysebu'n ehangach ac yn hygyrch i rieni a theuluoedd er mwyn gallu clywed mwy o leisiau (33% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (2)).

- Nododd un ymatebydd ei fod wedi adleoli i Gymru yn ddiweddar ac nad oedd yn ymwybodol cyn hynny o ymgyngoriadau eraill (17% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau).
- Roedd un ymatebydd yn awyddus i'r wybodaeth a gafodd ei rhannu fel rhan o'r ymgynghoriad gael ei hystyried ledled Cymru (17% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau).

Yn gyffredinol, nid oedd y mwyafrif o'r ymatebwyr wedi bod yn rhan o ddarparu adborth i'r Awdurdod Lleol ar ymgynghoriad yr ADGP gyda dim ond dau wedi cael cais dros e-bost i ddarparu adborth.

**Cwestiwn 2: Pa wybodaeth sy'n ddefnyddiol i'ch cefnogi wrth chwilio am ofal plant yn eich barn chi?**

Atebodd 22 o ymatebwyr y cwestiwn hwn. Ceir crynodeb o rai o'r canfyddiadau allweddol isod:

- Tynnodd ymatebwyr sylw at bwysigrwydd gwybodaeth gyfredol a hygyrch gan Awdurdodau Lleol am argaeledd gofal plant, gan gynnwys lleoedd gwag, lleoliadau, y mathau o ddarpariaeth (fel gofal cofleidiol a lleoliadau cyfrwng Cymraeg), a gwasanaethau arbenigol i blant ag anghenion sy'n dod i'r amlwg/Anghenion Dysgu Ychwanegol (50% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (11)).
- Gofynnodd ymatebwyr am dryloywder o ran costau, gan gynnwys ffioedd, disgowntiau, cymorth wedi'i ariannu gan y Llywodraeth, a nodwyd bod unrhyw help ariannol ychwanegol (er enghraifft, Dechrau'n Deg neu Gynnig Gofal Plant Cymru), yn bwysig er mwyn i deuluoedd allu gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth a deall yr effaith ar eu sefyllfa ariannol (45% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (10)).
- Pwysleisiodd ymatebwyr yr angen am fanylion clir o ran cymwysterau staff, cymarebau, profiad, gwiriadau cefndir (gan gynnwys gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd), ac adroddiadau arolygu (fel adroddiadau Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru), yn ogystal ag adolygiadau a thystiolaeth go iawn gan rieni (41% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (9)).
- Mynegodd ymatebwyr bryderon ynghylch hygyrchedd darparwyr, yn enwedig i deuluoedd heb geir neu rwydweithiau cymorth sefydledig, ac ynghylch hyblygrwydd oriau gofal plant i fodloni gofynion gweithwyr shifft ac amserlenni amrywiol (27% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (6)).

- Cyfeiriodd ymatebwyr at ddiogelwch, amgylchedd magwrus, safonau hylendid, prydau iach ac ansawdd gweithgareddau (gan gynnwys cyfleoedd i blant fynegi eu hunain, datblygiad cymdeithasol-emosiynol, ac opsiynau allgyrsiol) gan nodi eu bod yn ffactorau allweddol wrth ddewis lleoliad (23% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (5)).
- Roedd ymatebwyr yn gwerthfawrogi canllawiau ymarferol ar y broses o wneud cais am ofal plant a chymorth ariannol, gan nodi ei bod hi'n well ganddynt esboniadau clir a syml fel ffeithluniau i egluro'r camau dan sylw (23% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (5)).
- Soniodd un ymatebydd am yr heriau sy'n gysylltiedig â dod o hyd i ddarpariaeth addas a gwybodus i deuluoedd â phlant niwrowahanol neu blant ag anghenion ychwanegol a gofynnodd am well cyfeiriaduron a chanllawiau gan Awdurdodau Lleol (5% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau).

**Cwestiwn 3: Pa fath o ofal plant y byddech fwyaf tebygol o'i ddefnyddio yn seiliedig ar oedrannau eich plant?**

Atebodd cyfanswm o 22 o ymatebwyr y cwestiwn hwn. Ceir crynodeb o rai o'r canfyddiadau allweddol isod:

- Nododd ymatebwyr y byddai mwy o gyfleusterau gofal plant wedi'u cysylltu ag ysgolion o fudd (41% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (9)), gydag un ymatebydd yn nodi y byddai o fudd penodol i blant ag anghenion sy'n dod i'r amlwg/Anghenion Dysgu Ychwanegol, gan y byddai'n lleihau achosion o drosglwyddo ac yn darparu amgylchedd cyfarwydd (5% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau).
- Soniodd ymatebwyr am ofal cofleidiol a Chylch Meithrin fel opsiynau a ffefrir, yn ogystal â meithrinfeydd dydd, meithrinfeydd preifat, creches, gwarchodwyr plant a gwasanaethau carco plant. Codwyd pryderon ynghylch natur gyfyngedig a drud meithrinfeydd preifat, a'r ffaith nad oedd cyfleusterau cofleidiol ar gael ym mhob ysgol (32% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (7)).
- Roedd ymatebwyr o'r farn bod angen gofal ar ôl ysgol a chlybiau gwyliau, gyda rhai teuluoedd yn chwilio am ddarparwyr a allai gynnig gwasanaeth casglu o'r ysgol, er nad oedd gwasanaethau o'r fath ar gael yn eang (18% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (4)).
- Tynnodd ymatebwyr sylw at ddiffyg darpariaeth gofal plant i blant ag anghenion sy'n dod i'r amlwg/Anghenion Dysgu Ychwanegol, gan fynegi pryder nad oedd llawer o opsiynau addas ar gael, os o gwbl, a chan holi beth oedd y rhesymau dros y bwlch hwn (9% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (2)).

- Pwysleisiodd ymatebwyr y ffaith nad oedd oriau gofal plant presennol yn addas i rieni sy'n gweithio, yn enwedig y rheini y mae angen gofal dydd llawn arnynt (9% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (2)).
- Nododd un ymatebydd rwystredigaeth â'r meini prawf cymhwystra ar gyfer rhai cynlluniau penodol wedi'u rhedeg gan awdurdodau lleol fel ‘Codi'n Dair’, gan deimlo bod plant a anwyd y tu allan i fisoedd penodol yn colli allan ar gyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu'n gymdeithasol (5% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau).
- Nododd un ymatebydd ei fod yn well ganddo ofal plant sy'n cydbwyso diogelwch, llesiant emosiynol, a chyfleoedd ar gyfer chwarae a thwf personol, yn hytrach na chanolbwyntio ar ddysgu strwythuredig neu oriau ysgol estynedig yn unig (5% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau).
- Awgrymodd un ymatebydd y byddai'n fuddiol i deuluoedd gael gwell gwybodaeth am y gwahanol opsiynau gofal plant sydd ar gael yn eu hardal leol, gan eu galluogi i wneud penderfyniadau mwy addas yn seiliedig ar eu hamgylchiadau (5% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau).

**Cwestiwn 4: Sut y gellir datblygu'r newidiadau arfaethedig i'r Rheoliadau a'r Canllawiau Statudol er mwyn gwella hawliau plant neu leihau unrhyw effeithiau negyddol arnynt?**

Cyflwynodd cyfanswm o 15 o ymatebwyr sylwadau mewn perthynas â'r cwestiwn hwn. Ceir crynodeb o rai o'r canfyddiadau allweddol isod:

- Nododd ymatebwyr bwysigrwydd sicrhau bod gofal plant yn fforddiadwy ac yn gynhwysol, gan bwysleisio'r angen am opsiynau sy'n cefnogi rhieni sy'n gweithio, yn enwedig y rheini ar gontractau dim oriau neu mewn swyddi dros dro. Lluniwyd cymariaethau â Lloegr, gyda rhai yn galw am hawliau cyfartal fel gofal plant wedi'i ariannu gan y Llywodraeth o naw mis oed, gan ddadlau y byddai mwy o gymorth yn galluogi mwy o rieni i weithio (33% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (5)).
- Roedd ymatebwyr yn teimlo y dylai'r rheoliadau wneud mwy i ddiogelu hawliau plant – gan gynnwys diogelwch, cynhwysiant i bawb (yn enwedig plant ag anableddau, anghenion sy'n dod i'r amlwg/anghenion dysgu ychwanegol, neu o gefndiroedd lleiafrifol), ac i sicrhau y caiff lleisiau plant eu clywed (20% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (3)).
- Awgrymodd ymatebwyr y dylai Awdurdodau Lleol ddarparu gwybodaeth gynhwysfawr am bob math o ddarpariaeth gofal plant, gan gynnwys cyfrwng Cymraeg, dwyieithog, cyfrwng Saesneg, a darpariaeth sy'n addas i blant ag anableddau neu anghenion addysgol arbennig, gan adlewyrchu Erthygl 30 o

Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (20% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (3)).

- Nododd ymatebwyr fod y galw am ofal plant cofleidiol Cymraeg, yn enwedig i blant sy'n mynychu ysgol feithrin yn rhan amser, wedi'i danamcangyfrif ac yn aml nad oedd y lleoedd sydd ar gael yn ddigonol (13% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (2)).
- Mynegodd ymatebwyr bryder ynghylch y diffyg lleoliadau blynyddoedd cynnar neu ofal plant, gan ddisgrifio'r sefyllfa fel annigonol a siomedig, o ystyried hawliau plant i addysg a gofal (13% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (2)).
- Cododd un ymatebydd bryder ynghylch ansawdd y prydau a oedd yn cael eu darparu mewn lleoliadau gofal plant, gan gwyno nad oedd yr opsiynau bwyd yn iach a'u bod yn codi gormod amdanynt (7% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau).
- Argymhellodd un ymatebydd y dylai Awdurdodau Lleol ymgynghori â chymuned y Lluoedd Arfog mewn ardaloedd â phresenoldeb milwrol, er mwyn sicrhau bod anghenion plant y Lluoedd Arfog yn cael eu hystyried, yn unol ag Erthygl 3 o CCUHP (7% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau).

**Cwestiwn 5: Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai’r Adolygiad o Ddyletswydd Awdurdodau Lleol i gynnal Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant (ADGP) yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg, a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg. Pa effeithiau rydych chi'n credu y byddai? Sut y gellid gynyddu effeithiau positif a lliniaru effeithiau negyddol?**

Atebodd cyfanswm o 11 o ymatebwyr y cwestiwn hwn.  Ceir crynodeb o'r canfyddiadau allweddol isod:

- Roedd ymatebwyr o'r farn y gallai hybu'r Gymraeg drwy ofal plant gael effeithiau cadarnhaol, fel helpu mwy o blant i ddod yn ddwyieithog, sydd o fudd i'w hunaniaeth, eu diwylliant, ac o ran cyfleoedd yn y dyfodol (27% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (3)).
- Nid oedd rhai ymatebwyr yn gallu siarad Cymraeg a nodwyd ganddynt y byddai angen cymorth ar deuluoedd, yn enwedig aelodau o deuluoedd nad oeddent yn siarad Cymraeg, i ddeall ac i ddefnyddio'r Gymraeg, ac y gallai hyn roi pwysau ychwanegol ar athrawon a staff (27% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (3)).
- Mynegodd ymatebwyr y farn bod plant yn ei chael hi'n anodd meithrin sgiliau Saesneg ac y dylid rhoi blaenoriaeth i ddysgu Saesneg cyn eu hannog i ddysgu Cymraeg neu iaith arall (18% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (2)).

- Roedd ymatebwyr o'r farn bod materion pwysicach i'w hystyried fel mynediad at leoedd ac argaeledd lleoedd yn hytrach na chanolbwyntio ar y Gymraeg (18% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (2)).
- Roedd un ymatebydd o'r farn, er mwyn sicrhau cymaint o effeithiau cadarnhaol â phosibl, y dylai'r rheoliadau ei gwneud hi'n ofynnol i Awdurdodau Lleol gasglu data rheolaidd ar y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, nodi bylchau, a datblygu cynlluniau gweithredu i gynyddu gofal plant Cymraeg lle bo angen. Cododd bryderon pe byddai darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn cael ei thrin fel opsiwn dewisol, y gallai arwain at fynediad anghyfartal gan ddibynnu ble roedd teuluoedd yn byw (7% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau).

**Cwestiwn 6: Eglurwch hefyd os gwelwch yn dda sut rydych chi'n credu y gallai'r adolygiad arfaethedig gael ei lunio neu ei addasu er mwyn cael effeithiau positif neu fwy o effeithiau positif ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a pheidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

Atebodd cyfanswm o 5 ymatebydd y cwestiwn hwn. Ceir crynodeb o rai o'r canfyddiadau allweddol isod.

- Roedd un ymatebydd o'r farn ei bod hi'n afrealistig disgwyl i'r Gymraeg gael ei thrin yn gyfartal i'r Saesneg, a nododd fod lefelau sylweddol o gyllid yn cael eu gwario er gwaethaf canfyddiad nad oedd llawer o bobl yng Nghymru yn dymuno hynny (20% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau).
- Roedd un ymatebydd o'r farn y gallai Awdurdodau Lleol wella eu dull gweithredu drwy wneud y canlynol: casglu gwell data am y galw am ofal plant cyfrwng Cymraeg, nid dim ond lefelau argaeledd presennol; datblygu cynlluniau gweithredu wedi'u targedu i ehangu gofal plant cyfrwng Cymraeg lle nad oedd darpariaeth ddigonol; ymgysylltu'n uniongyrchol â rheini sydd â diddordeb mewn magu plant dwyieithog er mwyn sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu hystyried; a chanolbwyntio ar recriwtio a hyfforddi staff er mwyn sicrhau bod digon o weithwyr gofal plant cymwysedig sy'n siarad Cymraeg ar gael. Roeddent yn teimlo y byddai'r camau hyn yn helpu i sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, gan gynnig cyfleoedd dilys i fwy o blant ddysgu a defnyddio'r Gymraeg o oedran cynnar, a helpu i normaleiddio dwyieithrwydd ledled Cymru (20% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau).
- Nododd un ymatebydd, pe cafwyd ei weithredu'n briodol, y gallai gofal plant cyfrwng Cymraeg roi manteision ychwanegol i blant ym myd addysg ac o ran cyfleoedd yn y dyfodol (20% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau).

- Cododd un ymatebydd bryderon nad oedd rhai o'r staff mewn gwirionedd yn siarad Cymraeg â'r plant mewn rhai meithrinfeydd Cymraeg, er gwaethaf y ffaith bod y lleoliad wedi'i ddynodi'n lleoliad cyfrwng Cymraeg (20% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau).
- Roedd un ymatebydd o'r farn bod materion pwysicach i'w hystyried fel mynediad at leoedd ac argaeledd lleoedd yn hytrach na chanolbwyntio ar y Gymraeg (20% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau).

**Cwestiwn 7: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny.**

Cyflwynodd cyfanswm o 6 ymatebydd rai sylwadau ychwanegol. Ceir crynodeb o rai o'r canfyddiadau allweddol isod:

- Cododd ymatebwyr bryderon ynghylch mynediad anghyfartal i gyllid gofal plant, gan nodi bod teuluoedd yn Lloegr yn cael mwy o gymorth ariannol na theuluoedd yng Nghymru. Gwnaeth sawl un gais i Lywodraeth Cymru sicrhau bod cyllid yn fwy fforddiadwy a theg, yn unol â Lloegr (67% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (4)).
- Pwysleisiodd ymatebwyr yr angen i ofal plant gynnig amgylcheddau diogel a magwrus sy'n cefnogi datblygiad emosiynol, cymdeithasol a chreadigol plant, nid dim ond eu paratoi o safbwynt academaidd, gan nodi y dylid rhoi blaenoriaeth i lesiant a gwydnwch plant. Soniodd rhai fod y trefniadau cyllid a chymorth presennol yn ei gwneud hi'n anodd i rieni sy'n gweithio, yn enwedig y rheini heb deulu gerllaw neu'r rheini sy'n gweithio mewn proffesiynau arbenigol, ddychwelyd i'r gwaith oherwydd costau gofal plant uchel (33% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (2)).
- Mynegodd ymatebwyr bryderon ynghylch ansawdd gofal plant, yn benodol o ran iechyd plant (e.e., darparu prydau cytbwys yn hytrach na byrbrydau rhad) a diogelwch (fel cyfleusterau diogel a lefelau goruchwylio priodol gan staff) (33% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (2)).
- Nododd ymatebwyr fod y system bresennol yn dueddol o ffafrio teuluoedd sy'n hawlio budd-daliadau, yn hytrach na chefnogi rhieni sy'n gweithio, gan fynegi awydd i ddarpariaeth gofal plant annog etheg waith gryf mewn plant (33% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau (2)).
- Gofynnodd un ymatebydd am i leisiau plant gael eu cynnwys mewn asesiadau, er enghraifft drwy gasglu adborth gan blant hŷn am eu profiadau o ofal plant, er mwyn sicrhau bod gwasanaethau yn parhau i ganolbwyntio ar y plentyn (17% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau).

- Roedd un ymatebydd yn feirniadol o ddiffyg ystwythder yr oriau wedi'u hariannu i blant dwy flwydd oed, gan ofyn am fwy o hyblygrwydd i ddiwallu anghenion rhieni sy'n gweithio, yn hytrach nag amserlenni penodedig wedi'u pennu gan feithrinfeydd (17% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau).
- Roedd un ymatebydd yn rhwystredig ynghylch y diffyg darpariaeth gofal plant ar ôl ysgol, yn enwedig ar gyfer gweithgareddau fel clybiau ar ôl ysgol, gan nad oedd ysgolion nac Awdurdodau Lleol fel petaent yn ymdrin â'r angen hwn yn ddigonol (17% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau).

**Cwestiwn 8: Ydych chi'n byw yng Nghymru?**

Atebodd cyfanswm o 22 o ymatebwyr y cwestiwn hwn fel a ganlyn:

| Ateb | Canran | Nifer |
|---|---|---|
| Ydw | 95% | 21 |
| Nac ydw | 5% | 1 |

**Cwestiwn 9: A oes gennych fuddiant mewn busnes yng Nghymru?**

Atebodd cyfanswm o 21 o ymatebwyr y cwestiwn hwn fel a ganlyn:

| Ateb | Canran | Nifer |
|---|---|---|
| Oes | 14% | 3 |
| Nac oes | 86% | 18 |

## 5. Crynodeb o'r Ymatebion wedi'u Hanelu'n Bennaf at Ddarparwyr Gofal Plant

Cafwyd tri ymateb i'r cwestiynau wedi'u hanelu at ddarparwyr gofal plant. Ni wnaeth pob ymatebydd ateb pob cwestiwn. Ceir crynodeb isod o'r ymatebion a gafwyd i'r cwestiynau a gyflwynwyd yn yr ymgynghoriad a'r canfyddiadau allweddol o'r sylwadau.

**Cwestiwn 1: A ydych wedi bod yn rhan o ddarparu adborth fel rhan o ymgynghoriad yr ADGP a gynhaliwyd gan eich Awdurdod Lleol?**

Atebodd pob un o'r tri ymatebydd y cwestiwn hwn fel a ganlyn:

| Ateb | Canran | Nifer |
|---|---|---|
| Ydw | 67% | 2 |
| Nac ydw | 33% | 1 |

Cyflwynodd y tri ymatebydd rai sylwadau ychwanegol. Ceir crynodeb o'r canfyddiadau allweddol isod:

- Roedd un ymatebydd o'r farn bod gwybodaeth gan ddarparwyr gofal plant yn cael ei hanwybyddu (33% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau).
- Nododd un ymatebydd fod y broses yn gymharol syml (33% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau).
- Nododd un ymatebydd mai dyma oedd y tro cyntaf y gofynnwyd iddo gyfrannu (33% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau).

**Cwestiwn 2: Pa wybodaeth y byddai'n ddefnyddiol ei chynnwys yn yr ADGP i'ch helpu i sefydlu/datblygu eich busnes gofal plant yn eich barn chi?**

Atebodd y tri ymatebydd y cwestiwn hwn. Ceir crynodeb o'r canfyddiadau allweddol isod:

- Awgrymodd un ymatebydd y dylid cynnwys gwybodaeth am lefelau cyllid gwirioneddol; pa gymorth sydd ei angen ar ddarparwyr gofal plant; pa hyfforddiant mae darparwyr gofal plant am ei gael; a beth y dylai colegau fod yn ei addysgu i fyfyrwyr (33% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau).
- Gofynnodd un ymatebydd am hyfforddiant perthnasol, mwy amrywiol i ymarferwyr a mwy o gyfleoedd i rwydweithio â darparwyr lleol eraill er mwyn hyrwyddo proffil gofal plant yn y cartref (33% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau).
- Awgrymodd un ymatebydd y dylid rhoi'r gorau i ddefnyddio '30 awr' gan nad oedd o'r farn fod hynny'n adlewyrchiad teg o'r hyn y gall rhieni/gofalwyr ei ddisgwyl pan fydd eu plentyn yn cyrraedd yr oedran priodol ac yn cael 17.5 awr o help bob wythnos wedi'i ariannu (33% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau).

**Cwestiwn 3: Sut y gellir datblygu'r newidiadau arfaethedig i'r Rheoliadau a'r Canllawiau Statudol er mwyn gwella hawliau plant neu leihau unrhyw effeithiau negyddol arnynt?**

Ni chafwyd unrhyw ymatebion i'r cwestiwn hwn.

**Cwestiwn 4: Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r Adolygiad o Ddyletswydd Awdurdodau Lleol i gynnal Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant (ADGP) yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Pa effeithiau rydych chi'n credu y byddai? Sut y gellid gynyddu effeithiau positif a lliniaru effeithiau negyddol?**

Atebodd y tri ymatebydd y cwestiwn hwn. Ceir crynodeb o'r canfyddiadau allweddol isod:

- Roedd un ymatebydd o'r farn bod yr ymdrech i hybu'r Gymraeg yn gwastraffu arian trethdalwyr gan fod angen dyblygu dogfennau a chreu negeseuon ffôn hirfaith. Roedd yn teimlo na fyddai'r Gymraeg ddim gwerth i'r rheini a oedd yn anelu at gael swydd fyd-eang a bod treftadaeth yn cael ei gorfodi ar bobl yn hytrach na cheisio dod o hyd i ffyrdd o annog pobl i fod eisiau dysgu am yr iaith (33% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau).
- Roedd un ymatebydd o'r farn bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal yn ei Awdurdod Lleol ac yn teimlo y byddai mwy o gymorth i warchodwyr plant sy'n dysgu Cymraeg ddefnyddio eu sgiliau iaith gyda'r plant dan eu gofal yn ddefnyddiol gydag Awdurdodau Lleol yn chwarae rhan arweiniol yn hyn o beth (33% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau).
- Roedd un ymatebydd o'r farn bod angen cynnydd sylweddol mewn perthynas â'r Gymraeg. Roedd yn teimlo bod cynnydd aruthrol wedi bod ers dechrau 2010 yn nifer y cymunedau sy'n defnyddio'r Gymraeg fel dewis ddull cyfathrebu lle na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg (33% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau).

**Cwestiwn 5: Eglurwch hefyd os gwelwch yn dda sut rydych chi'n credu y gallai'r adolygiad arfaethedig gael ei lunio neu ei addasu er mwyn cael effeithiau positif neu fwy o effeithiau positif ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a pheidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

Atebodd y tri ymatebydd y cwestiwn hwn.  Ceir crynodeb o'r canfyddiadau allweddol isod:

- Gofynnodd un ymatebydd beth oedd manteision cyfleoedd i ddysgu Cymraeg mewn gwirionedd gan nodi y dylid addysgu amrywiaeth o ieithoedd i blant er mwyn iddynt ddewis pa un yr hoffent ei defnyddio. Roedd yn teimlo hefyd bod darparu cyllid i ysgolion/meithrinfeydd Cymraeg wedi cael effaith andwyol ar leoliadau Saesneg (33% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau).
- Roedd un ymatebydd o'r farn y dylai Awdurdodau Lleol greu digwyddiadau/fforymau rheolaidd i ddarparwyr gofal plant a allai gynnwys ffocws ar sgiliau Cymraeg a meithrin sgiliau newydd. Roedd yr ymatebydd hefyd o'r farn bod darparwyr hyfforddiant lleol a allai gynnal hyfforddiant i leoliadau gofal plant a dangos sut y gellir cyflwyno cyfleoedd chwarae, darnau rhydd, celf, llythrennedd corfforol, cerddoriaeth ac ati i'r plant drwy gyfrwng y Gymraeg (33% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau).
- Roedd un ymatebydd o'r farn y dylid trin y Gymraeg ym mhob darpariaeth yn yr un ffordd â'r Saesneg er mwyn sicrhau bod cenedlaethau'r dyfodol yn gallu siarad Cymraeg sydd, yn ei dro, yn cynyddu'r tebygolrwydd y byddant yn cael dyfodol llewyrchus, ac yn agor drysau i gamu ymlaen yn eu gyrfaoedd (33% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau).

**Cwestiwn 6:  Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny.**

Un ymatebydd a atebodd y cwestiwn hwn a nododd ei fod o'r farn bod angen ailenwi'r cynnig gofal plant Dechrau'n Deg i blant dwy flwydd oed i atal unrhyw ddryswch rhwng y cynnig hwnnw â'r cynnig Dechrau'n Deg llawn ac y dylid ystyried elfennau eraill o Dechrau'n Deg gan nad oedd yn denu pobl i gofrestru (100% o'r rheini a gyflwynodd sylwadau).

**Cwestiwn 7:  Ydych chi'n byw yng Nghymru?**

Atebodd pob un o'r tri ymatebydd y cwestiwn hwn fel a ganlyn:

| Ateb | Canran | Nifer |
|---|---|---|
| Ydw | 100% | 3 |

| | | |
|---|---|---|
| Nac ydw | 0% | 0 |

**Cwestiwn 8: A oes gennych fuddiant mewn busnes yng Nghymru?**

Atebodd pob un o'r tri ymatebydd y cwestiwn hwn fel a ganlyn:

| Ateb | Canran | Nifer |
|---|---|---|
| Oes | 67% | 3 |
| Nac oes | 33% | 1 |

## 6. Ymateb Llywodraeth Cymru

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda Gweithgor yr ADGP a sefydlwyd i oruchwylio a datblygu'r adolygiad o'r ADGP gyda chynrychiolaeth gan amrywiaeth o randdeiliaid sydd â diddordeb mewn ADGPau. Bydd canfyddiadau'r ymgynghoriad yn pennu pa ddiwygiadau y mae angen eu gwneud i'r Rheoliadau diwygiedig drafft; yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft; yr Asesiad Effaith Integredig drafft; a'r Canllawiau Statudol yn sgil y sylwadau a ddaeth i law.

Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn parhau i weithio gyda'r Is-grŵp Data a sefydlwyd i ystyried ffyrdd y gall Llywodraeth Cymru helpu Awdurdodau Lleol i gynnal yr ADGP a sicrhau bod y data a gaiff eu casglu yn berthnasol ac yn ddefnyddiol i Awdurdodau Lleol wrth gynllunio a gwneud penderfyniadau'n lleol. Bydd y sylwadau a gafwyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad yn helpu i bennu pa wybodaeth y gall Llywodraeth Cymru ei rhoi i Awdurdodau Lleol i'w helpu wrth gynnal yr ADGP.